# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

<table>
<tr><th colspan="2">RHYBUDD O GYFARFOD</th><th colspan="2">NOTICE OF MEETING</th></tr>
<tr><td colspan="2">PWYLLGOR SAFONAU</td><td colspan="2">STANDARDS COMMITTEE</td></tr>
<tr><td colspan="2">DYDD MERCHER, 16 MEHEFIN 2021<br>am 2.00 o'r gloch</td><td colspan="2">WEDNESDAY, 16 JUNE 2021<br>at 2.00 pm</td></tr>
<tr><td colspan="2">CYFARFOD RHITHWIR<br>WEDI EI FFRYDIO'N FYW</td><td colspan="2">VIRTUAL LIVE STREAMED<br>MEETING</td></tr>
<tr><td>Swyddog Pwyllgor</td><td colspan="2">Mrs Shirley Cooke<br>01248 752514</td><td>Committee Officer</td></tr>
</table>

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Dr Thomas Rhys Davies
Mrs Celyn Menai Edwards
Mr John Robert Jones
Mrs Gill Murgatroyd
Mrs Sharon Warnes

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor J Arwel Roberts
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Mr Keith Roberts
Mr Iorwerth Roberts

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 12)

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020.

**3 DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 13 - 18)

Adroddiad gan y Rheolwr Hyfforddiant - Adnoddau Dynol ar hyfforddiant Aelodau.

**4 MATERION YN YMWNEUD AG AELODAU** (Tudalennau 19 - 20)

Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn darparu diweddariad ar amryw o faterion yn ymwneud ag Aelodau.

**5 CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 21 - 26)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas â:-

(a) Cynghorwyr Sir, a
(b) Cynghorwyr Tref/Cymuned
ar gyfer Chwarteri 3 a 4, 2020/2021

**6 PENDERFYNIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 27 - 48)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar Goflyfr Côd Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Ionawr - Rhagfyr 2020 (Cyfrol 24 – cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021).

**7 PENDERFYNIADAU GAN BANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 49 - 58)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar benderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 15 Rhagfyr 2020.

**8 CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG**

Mae'n arferol i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro baratoi adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar y ceisiadau am ganiatâd arbennig sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor Safonau.

Yn ystod y cyfnod rhwng y Pwyllgor Safonau ar 15 Rhagfyr 2020 a dyddiad cyhoeddi'r rhaglen hon, does dim ceisiadau.

9 **ADRODDIAD BLYNYDDOL I'R CYNGOR** (Tudalennau 59 - 60)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar yr Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yng nghyfarfod y Cyngor ar 18 Mai 2021.

10 **ADOLYGIAD O'R GOFRESTR DIDDORDEBAU MEWN CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 61 - 68)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y canfyddiadau cyffredinol wnaethpwyd yn yr adolygiadau gynhaliwyd ym Mawrth, Ebrill a Mai 2021 yn y Cynghorau Tref a Chymuned, fel y nodir yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2020-2021.

11 **CANLLAW DIWYGIEDIG AR YR COD YMDDYGIAD I AELODAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 69 - 70)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar y Canllaw diwygiedig sydd wedi ei gyhoeddi gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

12 **ADRODDIAD AM DDOSBARTHIAD Y NEWYDDLEN YN Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 71 - 76)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar yr ymatebion sydd wedi eu derbyn gan y Cynghorau Tref a Chymuned ynghylch y Newyddlen ddosbarthwyd ym Mawrth 2021.

This page is intentionally left blank

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr John R Jones (Cadeirydd)<br>Dr Thomas Rhys Davies (Is-Gadeirydd) (yn y Gadair ar gyfer Eitemau 1 a 3)<br>Mrs Celyn Menai Edwards<br>Mrs Gill Murgatroyd<br>Mrs Sharon Warnes<br><br>**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorydd J Arwel Roberts<br>Y Cynghorydd Dafydd R Thomas<br><br>**Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Y Cynghorydd Keith Roberts |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (MY)<br>Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol (MW) (ar gyfer Eitem 3)<br>Swyddog Datblygu AD dan Hyfforddiant (CD) (ar gyfer Eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Iorwerth Roberts (Cynghorau Tref a Chymuned) |

---

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol yn gywir, yn amodol ar y canlynol-

• 17 Medi 2019
• 11 Mawrth 2020 (Arbennig)

Adroddodd y Cadeirydd, oherwydd nad oedd cworwm yn y cyfarfod diwethaf, fod cofnodion 17 Medi 2019 wedi'u cyflwyno i gyfarfod heddiw i'w cymeradwyo. Nodwyd bod y Cadeirydd wedi derbyn y cofnodion yn flaenorol, a chadarnhaodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas fod y cofnodion yn gywir.

**Materion yn codi o gofnodion 11 Mawrth 2020**

- Eitem 2 - Cadarnhaodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod gohebiaeth wedi'i hanfon at yr Adain TGCh yn dilyn cais ynghylch a ellid newid presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd i "presennol". Nodwyd na dderbyniwyd ymateb gan yr Adain TGCh hyd yma.

  **PENDERFYNWYD bod y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn ysgrifennu at yr Adain TGCh yn gofyn am ymateb i gais y Pwyllgor Safonau.**

- Eitem 3 - Cadarnhawyd, oherwydd Covid-19, nad yw'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi gallu mynychu cyfarfodydd Arweinwyr Grŵp i drafod Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau a materion perthnasol eraill. Adroddodd y Cadeirydd eu bod wedi cyfarfod ag un Grŵp, ac wedi gohebu ag un arall. Nodwyd unwaith y bydd cyfyngiadau'r cyfnod clo wedi eu llacio, bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn ceisio cwrdd ag Arweinwyr Grŵp.

  Gofynnodd yr Is-Gadeirydd a ddylai'r Pwyllgor gymryd agwedd fwy rhagweithiol, a gofyn am gyfarfod gydag Arweinwyr Grŵp trwy Zoom neu Teams, ac fe gytunodd y Pwyllgor. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro fod Arweinwyr Grŵp yn aml yn cwrdd trwy Teams ac felly byddai'n gwneud trefniadau i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd fynychu cyfarfod rhithwir o'r Arweinwyr Grŵp.

  **PENDERFYNWYD bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Arweinwyr Grŵp i ofyn am wahoddiad i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau fynychu cyfarfod Arweinwyr Grŵp maes o law.**

- Eitem 4 - Cyfeiriwyd at baragraff ar Dudalen 4 yr adroddiad a oedd yn dweud "*Adroddodd y Rheolwr Datblygu AD y byddai'n edrych i mewn i'r mater o gofnodi presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi yn ganolog ar y system AD, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law*". Nodwyd nad oes diweddariad wedi'i ddarparu ar gofnodi presenoldeb hyd yma.

  **PENDERFYNWYD bod y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn codi'r mater gyda'r Rheolwr Hyfforddiant AD ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau.**

- Eitem 5 - Canslwyd Sesiwn Gadeirio ar y cyd a oedd wedi'i threfnu gydag awdurdodau lleol Gwynedd a Conwy oherwydd y pandemig. Mae'r hyfforddiant Cadeirio bellach ar gael ar borth E-Ddysgu'r Cyngor.

- Eitem 11 - Adroddodd y Swyddog Monitro fod angen adolygu a chryfhau Protocol Datrysiad Lleol y Pwyllgor Safonau. Argymhellodd y dylai'r Pwyllgor adolygu'r Protocol ymhellach, ac ymgymryd â hyfforddiant cyfryngu yng nghyd-destun y Protocol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Adolygu Protocol Datrysiad Lleol y Pwyllgor Safonau;**
- **Bod y Pwyllgor Safonau yn ymgymryd â hyfforddiant cyfryngu yng nghyd-destun y Protocol Datrysiad Lleol.**

- Eitem 12 - Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro y wybodaeth ddiweddaraf am y Mesur Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Cadarnhaodd fod y Mesur wedi cael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cymru, ac y bydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol yn gynnar yn 2021. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir maes o law, i drafod y prif bwyntiau, a bydd hyn yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Safonau, fel rhan o'r Pwyllgor.

Gofynnodd aelod o'r Pwyllgor am greu log gweithredu er mwyn i swyddogion ddiweddaru pwyntiau gweithredu sydd angen sylw, neu sydd wedi'u cwblhau.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig uchod.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniadau uchod**.

## 3. DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad diweddaru gan y Rheolwr Hyfforddiant AD ar gynnydd y cyfleoedd datblygu a gynigiwyd i Aelodau etholedig ers i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar 11 Mawrth 2020.

Adroddodd y Rheolwr Hyfforddiant AD fod y Cynllun Datblygu Aelodau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn gynllun ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, a bod rhai materion ynddo heb eu cwblhau. Dywedodd fod gwybodaeth am sesiynau hyfforddi wedi'i hamlygu yn Atodiad 1 ac wedi derbyn sgôr o ran y cynnydd a wnaed, a bod hyfforddiant a gyflawnwyd wedi ei nodi ynghyd ag unrhyw anghenion hyfforddi i'w dwyn ymlaen i Gynllun Datblygu 2020/22. Nodwyd bod atborth wedi dod i law gan Wasanaethau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru ar lunio Cynllun diwygiedig ar gyfer y cyfnod cyfredol hyd at yr etholiadau yn 2022.

Er bod dulliau traddodiadol o roi hyfforddiant wedi eu gohirio am y tro, darparwyd peth arweiniad a hyfforddiant ar gyfryngau cymdeithasol. Bu'n rhaid i aelodau a staff addasu, a defnyddio Teams a Zoom fel ffordd newydd o ddysgu. Mae hyfforddiant helaeth wedi'i ddarparu ar ddefnyddio gweminarau, ac mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi mynychu sesiynau gweminar gyda CIPFA. Nodwyd bod modiwlau E-Ddysgu ar gael, a gellir eu cyrchu ar blatfform Cronfa Ddysgu'r Cyngor.

Adroddodd y Rheolwr Hyfforddiant AD fod y Tîm Dysgu a Datblygu yn ystyried datblygu adran ‘Aelodau Etholedig’ ar y platfform E-Ddysgu, fel y gall gwybodaeth am hyfforddiant/digwyddiadau fod ar gael yn rhwydd. Dywedodd fod Arweinwyr Grŵp wedi gofyn am gymorth gyda hyfforddiant TGCh ar gyfer rhai Aelodau etholedig, sydd hefyd ar gael.

Codwyd pryderon y byddai'r llwyth gwaith ar gyfer swyddogion ac Aelodau'n cynyddu'n sylweddol, pe bai mwy o sesiynau hyfforddi yn cael eu hychwanegu at y Cynllun. Codwyd cwestiwn a fyddai'r llwyth gwaith hyfforddi yn cael ei flaenoriaethu neu ei gywasgu i flwyddyn o waith? Ymatebodd y Rheolwr Hyfforddiant AD yr ymgynghorwyd ag Uwch Reolwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth ar feysydd blaenoriaeth ar gyfer hyfforddi a datblygu i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu ar gyfer 2020/22.

Adroddodd y Rheolwr Hyfforddi bod trafodaethau hefyd wedi digwydd gyda Swyddog Polisi a Gwella Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn sefydlu pa adnoddau sydd ar gael. Mae atborth yn awgrymu y dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar barhau â sesiynau briffio mewn meysydd sy'n cynnwys Cynllunio, Tai, Gofal Cymdeithasol ac Addysg. Ar ôl cwblhau'r Cynllun, bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan yr UDA a'r Arweinwyr Grŵp, ac yna'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Cyngor llawn.

O ran Adolygiadau Datblygiad Personol (ADP) ar gyfer y flwyddyn i ddod, mae'r ffocws yn debygol o fod ar sgiliau cadeirio a darparu hyfforddiant TGCh pellach. Bydd hyfforddiant yn cael ei flaenoriaethu, a bydd y Cynllun yn cael ei ddiweddaru yn dilyn atborth ym mis Chwefror 2021.

Cyfeiriodd aelod o’r Pwyllgor at Bwynt 3 (Cyllid) yn yr Atodiad, a thynnodd sylw at risgiau ar bob lefel yng ngwasanaethau’r Cyngor. Dywedodd, er bod y Pwyllgor Archwilio yn edrych ar risg yn fanwl, y dylai'r Cyngor gael proses ar gyfer rheoli ei risgiau ar lefel strategol, ac o fewn gwasanaethau'r Cyngor. Ailadroddodd ei bod yn bwysig nad yw rheoli risg yn cael ei ystyried yn fater ariannol yn unig, ond fel proses y dylai pob Aelod ei deall, ac y dylent ymgorffori'r broses honno yn eu gweithredoedd o ddydd i ddydd.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ei bod yn codi'r mater rheoli risg gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Archwilio Mewnol, i nodi'r math o hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer y maes risg.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad.**
- **Bod yr holl anghenion hyfforddi yn deillio o Adolygiadau Datblygiad Personol yn cael eu hanfon ymlaen at y Rheolwr Hyfforddiant AD erbyn 28 Chwefror 2021, fel y gellir diwygio'r Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau a blaenoriaethu hyfforddiant penodol.**
- **Bod y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau ar gyfer 2020/2022 yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yn 2021.**
- **Bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn codi'r mater rheoli risg gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Archwilio Mewnol.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.**

## 4. CWYNION YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar y diweddariad chwarterol ynghylch cwynion, a hynny ar ffurf matricsau ar gyfer (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned yn Chwarter 4 2019/20, a Chwarteri 1 a 2 yn 2020/21.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) na chafwyd unrhyw gwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir gan aelodau o'r cyhoedd rhwng:-

- Ionawr i Fawrth 2020 (Chwarter 4)
- Ebrill i Fehefin 2020 (Chwarter 1)
- Gorffennaf i Fedi 2020 (Chwarter 2)

Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw gwynion yn erbyn Cynghorwyr Tref / Cymuned am yr un cyfnodau.

**PENDERFYNWYD**: -

- **Nodi cynnwys yr adroddiad ac Atodiadau 1-6.**
- **Bod y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn paratoi ac yn dosbarthu cylchlythyr i Aelodau etholedig a chyfetholedig, ac aelodau Cynghorau Tref a Chymuned, gan atodi dolen i'r adroddiad; a hefyd**
- **Bod materion eraill sy'n codi yn y cyfarfod heddiw yn cael eu cynnwys yn y cylchlythyr (fel sy'n briodol).**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.**

## 5. PENDERFYNIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar Goflyfr chwarterol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ynghylch Cwynion Côd Ymddygiad ar gyfer Hydref - Rhagfyr 2019 (Rhifyn 23).

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) y cafwyd gwybod am ddau achos o dorri'r Côd Ymddygiad, y ddau yn cynnwys Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Roedd yr achos cyntaf yn ymwneud ag Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a oedd wedi torri'r Côd Ymddygiad trwy bleidleisio ar osod cyfradd y Dreth Gyngor mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn, er bod ganddo ddyledion Treth Gyngor. Nid oedd yr Aelod wedi datgan diddordeb ac roedd wedi dwyn anfri ar y Cyngor o dan y Côd.

'Roedd yr ail fater yn cyfeirio at Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a oedd wedi derbyn swydd benodol yn y Cabinet, yn groes i gyngor y Swyddog Monitro, ac roedd hynny wedi creu gwrthdaro diddordeb gyda'i gyflogaeth ar y pryd. Roedd yr Aelod hefyd wedi methu â datgan diddordebau personol a

rhagfarnus mewn perthynas â'r mater. Er bod yr Ombwdsmon o'r farn bod y Côd wedi ei dorri, nid ystyriwyd y byddai er budd y cyhoedd i ymchwilio ymhellach i'r mater.

Atgoffwyd y Pwyllgor Safonau, a dylid rhannu'r un neges ag Aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig eraill y Cyngor hwn, y dylent gysylltu â'r Swyddog Monitro i gael cyngor ar faterion Côd Ymddygiad, gan gynnwys datgan diddordebau personol a rhagfarnus.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod nifer y cwynion a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon yn genedlaethol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod clo. Dywedodd fod y rhan fwyaf o'r cwynion yn ymwneud â defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac mae'r Ombwdsmon yn gweithio drwyddynt ac yn eu didoli ar hyn o bryd. Cadarnhawyd nad yw'r un o'r cwynion a dderbyniodd yr Ombwdsmon yn ymwneud ag Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys y crynodebau achos.**
- **Bod yr eitem hon yn cael ei chynnwys yn y cylchlythyr i Aelodau etholedig a chyfetholedig, ac aelodau Cynghorau Tref a Chymuned.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.**

**6. PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ynghylch penderfyniadau diweddar a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru (PDC), ac a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 11 Mawrth 2020.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod apêl wedi'i chyflwyno i Banel Dyfarnu Cymru gan Aelod o Gyngor Sir Caerdydd, yn erbyn penderfyniad gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Caerdydd i'w atal o'i swydd am gyfnod o 4 mis am fethu â chydymffurfio â'r darpariaethau'r Côd Ymddygiad sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo:

(a) Dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill;
(b) Peidio â defnyddio ymddygiad bwlio nac aflonyddu ar unrhyw berson; a
(c) Peidio ag ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried y byddai'n dwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod.

Nodwyd bod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Caerdydd o'r farn bod y modd y torrwyd y Côd Ymddygiad yn ddigon difrifol i haeddu atal y Cynghorydd.

Er ei fod yn derbyn ffeithiau'r achos - fel y'u canfuwyd gan y Pwyllgor Safonau - rhoddodd Panel Dyfarnu Cymru sylw i'r apêl yn erbyn y ddedfryd, a phenderfynodd bod cyfiawnhad dros y gosb a ddyfarnwyd i'r Cynghorydd, sef ei atal am bedwar mis.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys y crynodeb o'r achos.**
- **Bod yr eitem hon yn cael ei chynnwys yn y cylchlythyr i aelodau etholedig a chyfetholedig ac aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned.**
- **Bod y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn rhannu'r ddolen i'r hyfforddiant E-Ddysgu sydd ar gael i Aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor [fel y cyfeirir yn y Pwyntiau Dysgu i Aelodau yn Atodiad 1 yr adroddiad] pan ddosberthir y cylchlythyr.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.**

## 7. PANEL DYFARNU CYMRU – CANLLAWIAU’R LLYWYDD

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar Ganllawiau’r Llywydd gan Banel Dyfarnu Cymru.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro bod yr Ombwdsmon yn cyfeirio cwynion at Banel Dyfarnu Cymru os ystyrir bod y modd y torrwyd y Côd Ymddygiad yn ddigon difrifol, fel y gallai fod yn briodol rhoi cosb o atal am dros 6 mis. Mae PDC wedi cyhoeddi canllawiau newydd ar y 3 maes penodol a ganlyn: -

(a) Anonymeiddio
(b) Datgelu; a
(c) Rôl y Swyddog Monitro yn Nhrafodaethau PDC

Gan gyfeirio at y Canllawiau ar “anonymeiddio”, nodwyd y dylid cynnal gwrandawiadau PDC yn gyhoeddus. Mae gan PDC a'r Pwyllgor Safonau yr hawl i gau allan y wasg a'r cyhoedd o wrandawiad, neu ran o wrandawiad ac i anonymeiddio'r cofnodion neu ran ohonynt. Ym mhob achos, bydd y Panel yn adolygu'r hyn sy'n deg ac yn angenrheidiol er budd cyfiawnder. Nodwyd bod PDC yn pryderu mwy am drydydd partïon a thystion, yn hytrach nag Aelodau a swyddogion etholedig.

Mewn perthynas â'r ail Ganllaw ar “ddatgelu”, nododd y Swyddog Monitro, unwaith y bydd adroddiad wedi'i baratoi gan Swyddfa'r Ombwdsmon, y bydd atodlen o ddeunydd nas defnyddiwyd ond sydd ar gael hefyd yn cael ei atodi i'r adroddiad (yn ychwanegol at yr Adroddiad a'r Dystiolaeth y mae'r Ombwdsmon wedi dibynnu arnynt).

Nodwyd y gall PDC ofyn am wybodaeth bellach gan yr Ombwdsmon, os bydd angen. Mae gan yr Aelod yr hawl hefyd i ofyn am dystiolaeth bellach.

Mewn perthynas â'r trydydd Canllaw, awgrymodd y Swyddog Monitro y dylai'r Pwyllgor Safonau dderbyn copi o Weithdrefn y Pwyllgor ar gyfer Cynnal Gwrandawiadau.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys Canllawiau'r Llywydd gan Banel Dyfarnu Cymru sydd wedi'u cynnwys yn Atodiadau 1-3 yr adroddiad.**
- **Bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn anfon copi o'r Weithdrefn ar gyfer Cynnal Gwrandawiadau i ystyried achosion o dorri'r Côd Ymddygiad at aelodau'r Pwyllgor Safonau.**
- **Bod yr eitem hon yn cael ei chynnwys yn y cylchlythyr i Aelodau etholedig a chyfetholedig, ac aelodau Cynghorau Tref a Chymuned.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.**

## 8. CANAIATÂD(AU) ARBENNIG

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar ganlyniad gwrandawiad ynghylch caniatâd arbennig a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2020, i ystyried cais bloc a wnaed gan holl aelodau'r Cyngor Sir hwn mewn perthynas â'r "rheol chwe mis".

Adroddodd y Cadeirydd fod y Panel wedi rhoi caniatâd arbennig heb gyfyngiad i'r holl Gynghorwyr a enwyd a oedd wedi gwneud cais am y fath ganiatâd mewn perthynas â diddordebau a oedd yn rhagfarnu ynghylch y "rheol chwe mis".

Nodwyd cywiriad yn y cofnodion Cymraeg a oedd yn nodi bod y caniatâd wedi ei roi hyd ddiwedd Mai 2020, pan ddylai fod wedi darllen 2022.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r caniatâd arbennig a roddwyd, a'r rhesymau a'r amgylchiadau dros wneud hynny.**
- **Bod cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2020 wedi eu cadarnhau fel rhai cywir gan aelodau'r Panel yn unig (John R Jones, Rhys Davies a Sharon Warnes).**

**Gweithredu: Dim**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU GAN Y CADEIRYDD

Cyflwynwyd - Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2019/20, fel y'i cyflwynwyd i'r Cyngor Sir yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 8 Medi 2020. Mae'r adroddiad yn manylu ar y gwaith y mae'r Pwyllgor hwn wedi'i gyflawni yn ystod 2019/20, ac mae'n cynnwys y rhaglen waith ar gyfer 2020/21.

Adroddodd y Cadeirydd y bu'n hapus iawn i gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith, er bod y rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i gwblhau yn ystod tymor cyn-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, Mr Michael Wilson. Dywedodd fod yr adroddiad wedi anfon neges gadarnhaol am waith y Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynir yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2019/20 a'r Rhaglen Waith ar gyfer 2020/21.**
- **Bod y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn anfon fersiwn Saesneg o'r ddolen yn yr adroddiad i aelodau'r Pwyllgor Safonau**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.**

**10. ADOLYGIAD Y PWYLLGOR SAFONAU O GOFRESTRAU DIDDORDEBAU A GEDWIR GAN GYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Cyflwynwyd - adroddiad ar adolygiad arfaethedig o'r cofrestrau diddordebau a gedwir gan Gynghorau Tref a Chymuned.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) mai'r Pwyllgor Safonau sy'n gyfrifol am benderfynu pa Gynghorau Tref a Chymuned sydd i'w hadolygu. Nodwyd bod 4 neu 5 o Gynghorau Tref a Chymuned wedi cael eu hadolygu ar bob achlysur dros y blynyddoedd diwethaf**.**

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar ffurf yr adolygiadau y byddai'r Pwyllgor Safonau yn ei mabwysiadu. Ystyriodd y Pwyllgor yr opsiynau sydd ar gael, a chytunodd i barhau â'r trefniant blaenorol, ac adolygu 10% - 5 Cyngor Tref a Chymuned. Penderfynwyd na fyddai Cynghorau a hysbyswyd o'r blaen yn destun adolygiad ac y dylent gael eu heithrio. Penderfynwyd hefyd, lle mae Clerc yn gweinyddu mwy nag un Cyngor Tref neu Gymuned, na fydd mwy nag un o'r Cynghorau hynny yn destun adolygiad. Awgrymwyd amrywio'r Cynghorau Tref a Chymuned a adolygir yn ôl eu maint, a chynnwys un Cyngor Tref; un Cyngor Cymuned mawr ac un bach. Cadarnhawyd y byddai dau aelod o'r Pwyllgor Safonau (dau aelod annibynnol, neu un annibynnol ac un cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned) yn cynnal yr adolygiadau.

Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor Safonau awdurdodi'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) benderfynu pa Gynghorau Tref a Chymuned i'w hadolygu. Cytunodd y Pwyllgor i'r cynnig.

Cadarnhaodd y Pwyllgor y dylid mabwysiadu dull ffurfiol a dull llai ffurfiol hefyd. Cysylltir â Chlercod Unigol dros y ffôn yn y lle cyntaf, i egluro pwrpas yr adolygiad. Yna anfonir llythyr i gadarnhau'r trefniant ac i ofyn am gopïau o'r dogfennau perthnasol ar gyfer yr adolygiad. Yna trefnir cyfarfod rhithwir gyda phob Clerc i drafod y ddogfennaeth a adolygir fel rhan o'r broses.

Bydd pob Cyngor unigol yn derbyn ei grynodeb ei hun o'r canfyddiadau. Ni fydd y Pwyllgor Safonau yn cyhoeddi canfyddiadau ar y cynghorau unigol ond bydd yn rhannu adroddiad cyffredinol ar y canfyddiadau gyda'r holl Gynghorau Tref a Chymuned, a bydd hyn yn rhestru arfer da ac yn cynnwys pwyntiau dysgu.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau.**
- **Bod y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Safonau pa Gynghorau Tref a Chymuned a adolygwyd yn flaenorol.**
- **Cadarnhau bod y Pwyllgor Safonau yn awdurdodi'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, ar ôl cael cyngor gan y Cyfreithiwr (Corfforaethol Llywodraethu) i benderfynu pa 5 Cyngor Tref a Chymuned sydd i'w hadolygu.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau yn cysylltu â Chlercod pob Cyngor Tref a Chymuned a ddewiswyd i'w hysbysu y byddant yn destun adolygiad.**
- **Cytuno ar amserlen ar gyfer yr adolygiadau gyda Chlercod pob Cyngor Tref a Chymuned a ddewiswyd.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.15 pm

**MR JOHN R JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| CYFARFOD: | PWYLLGOR SAFONAU |
| DYDDIAD: | 16 MEHEFIN 2021 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | DATBLYGIAD AELODAU |
| AWDUR YR ADRODDIAD: | RHEOLWR HYFFORDDIANT – ADNODDAU DYNOL |
| SWYDDOG CYSWLLT : | MIRIAM WILLIAMS |
| PWRPAS YR ADRODDIAD : | DARPARU DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUNIAU AR GYFER RHAGLEN DATBLYGU A HYFFORDDI AELODAU 2021 - 2022 |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu'r Pwyllgor Safonau â throsolwg o'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer eu cynnig fel cyfleoedd datblygu i Aelodau Etholedig yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

## 2. CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Yn amlwg, mae'r pandemig presennol wedi cael effaith ar y ddarpariaeth hyfforddiant dros y flwyddyn gyda gweithgareddau cyfyngedig wedi eu cynnig i Aelodau Etholedig. Yn gyffredinol, cyfleoedd E-ddysgu a sesiynau briffio sydd wedi eu cynnig.

Mae trafodaethau â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, Arweinyddion Grwpiau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cadarnhau mai'r canlynol y dylid canolbwyntio arnynt yn ystod 2021-2022:

- Hyfforddiant Mandadol
- Hyfforddiant iPad
- Hyfforddiant Deddfwriaethol
- Sesiynau Briffio

Bydd manylion hyfforddiant sydd ar gael felly'n cael eu hyrwyddo pan fydd y sesiynau wedi eu trefnu, gan sicrhau y rhoddir rhybudd digonol.

Mae copi o adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 16 Mawrth 2021i'w weld drwy y linc yma:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s17002/Datblygu%20Aelodau.pdf?LLL=1

## 3. ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL (PDR) AR GYFER AELODAU

O ran y data a gasglwyd o'r adolygiadau Data Personol, bydd y gofynion yn cael eu hystyried fel y nodwyd uchod.

## 4. DARPARIAETH HYFFORDDIANT

Ar nodyn cyffredinol, am resymau cadw pellter cymdeithasol, nid yw dulliau traddodiadol o ddarparu Hyfforddiant wedi bod yn opsiwn dros y 12 mis diwethaf. Tra cynhelir adolygiad o drefniadau Covid o ran sesiynau ystafell ddosbarth, mae’n debygol iawn y bydd Hyfforddiant/sesiynau briffio yn y dyfodol yn parhau i gael eu cynnal drwy gyfryngau megis MS Teams/Zoom a drwy ddefnyddio cyfryngau E-ddysgu’r Cyngor, Learning Pool.

Mae Hyfforddiant ac arweiniad ar y defnydd o MS Teams / Zoom wedi bod ar gael i Aelodau Etholedig er mwyn hwyluso cyfraniad Aelodau i gyfarfodydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, mae canllawiau ar ffurf llyfrynnau/fideos ar gael er mwyn cynorthwyo mynediad.

Mae modiwlau E-ddysgu, y gellir cael mynediad iddynt drwy blatfform E-ddysgu Learning Pool yr Awdurdod yn parhau i fod ar gael, gyda lefel gynyddol o wybodaeth yn cael ei hychwanegu yn wythnosol. Mae’r Tîm Dysgu a Datblygu ar hyn o bryd yn datblygu Adran Aelodau Etholedig ar blatfform E-ddysgu’r Awdurdod er mwyn gallu sicrhau gwell mynediad at wybodaeth am ddigwyddiadau Hyfforddiant/iechyd a llesiant. Y bwriad yw lansio hyn ddechrau’r Haf.

Yn ôl yr arfer, mae cefnogaeth o ran sgiliau TG ar gael ar sail 1-1/grŵp os oes angen.

I bwrpas cyfeiriad, mae manylion o’r Modiwlau E-Ddysgu sydd ar gael, wedi ei cynnwys yn Atodiad 1. Fe ddylid nodi fod modiwlau newydd yn cael ei uwchlwytho’n reolaidd ar y sustem.

## 5. ARGYMHELLION

Gofynnir i’r Pwyllgor Safonau gymeradwyo’r Cynllun Hyfforddiant ar trosglwyddiad cysylltiedig ar gyfer 2021/22, fel y manylir yn yr adroddiad yma.

**MIRIAM WILLIAMS**
**RHEOLWR HYFFORDDIANT AD**
**MEHEFIN 2021**

**Atodiad 1**

## MODIWLAU E-DDYSGU

**Mae gan y Aelodau Etholedig fynediad hyblyg at y system E-ddysgu. Gweler isod fanylion am y meysydd pwnc cyfredol sydd ar gael. Bydd modiwlau ychwanegol yn cael eu datblygu a'u cyflwyno maes o law. Gellir bellach weld y cyrsiau a nodir gyda (i) isod drwy iPad.**

| Datblygiad Aelodau | Yr Iaith Gymraeg | Iechyd a Diogelwch |
|---|---|---|
| - Moesau a Safonau (i)<br>- Y Cynghorydd Ward Effeithiol (i)<br>- Sgiliau Siarad Cyhoeddus (i)<br>- Cadeirio Cyfarfodydd (i)<br>- Rhiantu Corfforaethol (i)<br>- Penderfyniadau I Genedlaethau'r Dyfodol (i)<br>- Cyflwyniad I Graffu (i) | - Croeso Cymraeg Gwaith (i)<br>- Croeso'n ôl! Cymraeg Gwaith (i) | - Defnyddio Offer Sgriniau Arddangos (OSA) yn Ddiogel (i)<br>- Rheoli Iechyd a Diogelwch (i)<br>- Glendid Bwyd (i) |
| **Llesiant** | **Gofal Cwsmer a Sgiliau Proffesiynol** | **Technoleg Gwybodaeth** |
| - Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol **(M)**<br>- Cyflwyniad I Gydraddoldeb ac Amrywiaeth (i)<br>- Gwybodaeth Iechyd (i)<br>- Ymwybyddiaeth Straen (i)<br>- Cadernid Personol (i)<br>- Atal (i) **(M)**<br>- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (i) | - Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) (i) **(M)**<br>- Ysgrifennu Effeithiol (i)<br>- Rheoli Eich Hun a'ch Amser (i)<br>- Ysgrifennu Cofnodion Effeithiol (i)<br>- Rhoi a Derbyn Adborth (i)<br>- Sgiliau Cyfarfod (i)<br>- Sgiliau Cyflwyno (i)<br>- Deallusrwydd Emosiynol (i)<br>- Hunan Ddatblygiad (i) | - Ymwybyddiaeth Seibr **(M)** |

**Atodiad 1**

| | | |
|---|---|---|
| - Cynllunio Cyn Ymddeol (i)<br>- Diogelu – Ymwybyddiaeth Sylfaenol (i)<br>- Caethwasiaeth Fodern (i) **(M)** | - Llywodraethu Gwybodaeth yn Gyffredinol (i) | |

**(M) = Mandadol**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad:** | **16 Mehefin 2021** |
| **Teitl:** | **Materion yn ymwneud ag Aelodau** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adrodd ar y cynnydd hyd yma** |
| **Awdur:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

f

## 1.0 Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar amrywiaeth o faterion cysylltiedig ag Aelodau.

## 1.1 Adroddiad Blynyddol Aelodau

Rydw i wedi diweddaru'r Pwyllgor hwn ar Adroddiadau Blynyddol Aelodau yn y gorffennol.

Mae Adran 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor Sir i sicrhau bod trefniadau yn eu lle er mwyn galluogi Aelodau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar eu gweithgareddau. Gweler y tabl isod:

| Adroddiadau Blynyddol | Adroddiadau a Gwblhawyd |
|---|---|
| 2013/14 | 21 |
| 2014/15 | 21 |
| 2015/16 | 21 |
| 2016/17 | 20 |
| 2017/18 | 21 |
| 2018/2019 | 27 |
| 2019/20 | 22 |

Mae adroddiadau blynyddol yn bwysig o ran atebolrwydd lleol ac maent yn darparu trosolwg o ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn ogystal â gweithgareddau ymgysylltiad cymunedol. Gellir cael mynediad i adroddiadau drwy'r ddolen isod:

https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-Aelodau-Seneddol-ac-Aelodaur-Senedd/Adroddiadau-blynyddol-y-cynghorwyr.aspx

Mae Arweinyddion Grwpiau wedi eu briffio ar y trefniadau ar gyfer adroddiadau sy'n ymdrin â'r cyfnod 2020/21. Cafodd templed ei gylchredeg i'r holl Aelodau ar 20 Ebrill 2021 a chais i'r Aelodau gwblhau'r adroddiadau erbyn 12 Mai 2021 yn barod i'w cyhoeddi ar wefan y Cyngor cyn diwedd Mehefin 2021. Fe roddir

diweddariad yn y Pwyllgor.

### 1.2 Etholiadau'r Cyngor yn 2022

Wrth baratoi ar gyfer etholiadau'r flwyddyn nesaf, mae'r WLGA ar hyn o bryd wrthi'n diweddaru modelau'r disgrifiadau swydd ar gyfer Aelodau. Bydd y rhain yn cael eu diweddaru'n lleol ac yn cael eu rhoi i Aelodau unwaith y byddant wedi eu hethol. Mae'r disgrifiadau wedi eu cynllunio i gael eu defnyddio ar y cyd â'r fframwaith (cymhwysedd) datblygu aelodau sydd wedi'i ddiweddaru'n ddiweddar ac sydd ar gael i'w weld ar wefan y WLGA:

https://www.wlga.cymru/councillor-development-competency-framework

Bydd yr agweddau hyn ynghyd â'r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) ac Etholiadau 2021 yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystod 2021/22.

### 2.0 Argymhelliad:

Nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**2 Mehefin 2021**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **16 Mehefin 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cwynion am Ymddygiad i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cwynion a anfonwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau'n derbyn diweddariad bob chwarter ynglŷn â'r cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

## 2. DIWEDDARIAD

2.1 Cyflwynwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 4 2019-2020 (Ionawr - Mawrth 2020), Chwarter 1 o 2020-2021 (Ebrill – Mehefin 2020) a Chwarter 2 o 2020-2021 (Gorffennaf – Medi 2020) yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 15 Rhagfyr 2020.

2.2 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 3, ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 3, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

2.3 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4, ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**.

2.4 Anfonwyd adroddiadau ar gyfer Chwarter 3 o 2020-2021 i aelodau'r Pwyllgor Safonau ar 8 Ionawr 2021. Anfonwyd adroddiadau ar gyfer Chwarter 4 o 2020-2021 i aelodau'r Pwyllgor Safonau ar 12 Ebrill 2021.

2.5 Bydd yr adroddiadau ar gyfer Chwarteri 3 a 4 **(Atodiadau 1 - 4)** yn cael eu dosbarthu o fewn y Newyddlenni i'r Cynghorau Tref a Chymuned ac i aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor hwn yn dilyn y cyfarfod yma o'r Pwyllgor Safonau.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys **Atodiadau 1 - 4** ac yn ystyried unrhyw dueddiadau a amlygir (os o gwbl) ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn cywiro pethau.

3.2 I'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ddosbarthu yr **Atodiadau 1-4** efo'r Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor o fewn y Newyddlenni.

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr 2020) – 2020/2021 – Quarter 3 (October – December 2020)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| **DIM I'W ADRODD / NOTHING TO REPORT** | | | | |

**ATODIAD / ENCLOSURE 2**

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH**
**CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING**
**TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr 2020) – 2020/2021 – Quarter 3 (October – December 2020)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Tref / Town Councillor | Cynghorydd Tref / Town Councillor | (i) 023086<br>(ii) 202004293 | 23.12.2020 | Ombwdsmon yn ystyried y gŵyn / Ombudsman considering the complaint |

Tudalen 24

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2021) – 2020/2021 – Quarter 4 (January – March 2021)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| DIM I'W ADRODD / NOTHING TO REPORT | | | | |

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2021) – 2020/2021 – Quarter 4 (January – March 2021)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Tref / Town Councillor | Cynghorydd Tref / Town Councillor | (i) 023086<br>(ii) 202004293 | 23.12.2020 | Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio i'r gŵyn /<br>Ombudsman has decided not to investigate the complaint |

Tudalen 26

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **16 Mehefin 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor am benderfyniadau Cymru Gyfan a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfr ar gyfer Ionawr - Rhagfyr 2020 (Rhifyn 24) a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi Coflyfr o Gwynion Côd Ymddygiad unwaith bob chwarter.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfr ar gyfer Ionawr-Rhagfyr 2020 (Rhifyn 24).[**ATODIAD 1].**

Bydd materion yn cael eu hadrodd yn chwarterol fel arfer ond ni chafodd adroddiad ei gyhoeddi yn ystod 2020. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y materion hynny a gafodd eu penderfynu yn ystod 2020, fel y'i cyhoeddwyd yn Ebrill 2021.

## 2. CEFNDIR

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu pwerau "sifft gyntaf" dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n gosod dyletswydd arno i ystyried cwynion y gallai aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru fod wedi torri eu côd ymddygiad. Mae awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu prawf trothwy er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio. Mae'r prawf trothwy yn golygu bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn fodlon:-

- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r côd ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a
- Bod y mater yn ddigon difrifol fel ei fod o fudd i'r cyhoedd bod ymchwiliad yn cael ei agor.

Yn dilyn agor ymchwiliad, gallai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddod i un o bedwar canlyniad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:

(a) nad oes unrhyw dystiolaeth bod côd ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;

(c) y dylid cyfeirio'r mater at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau;

(d) bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy dribiwnlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (c) neu (d) uchod yn berthnasol, bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyflwyno ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru (PDC) a lle'r pwyllgor, neu dribiwnlys achos ar ran y Panel, yw cynnal gwrandawiad er mwyn ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol a gafodd y côd ymddygiad ei dorri ai peidio, ac os hynny, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb. Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i wahardd cynghorwyr am gyfnodau hyd at 6 mis. Does gan Bwyllgorau Safonau ddim pwerau anghymhwyso, a lle bydd canfyddiadau o dorri rheolau, byddant yn ceisio rhoi cosb sy'n briodol ar gyfer y drosedd. Bydd hyn yn aml iawn yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu'n argymhelliad o hyfforddiant/ymrwymiad/cyfryngu ayb. Mae gan dribiwnlys achos awdurdod i wahardd am hyd at 12 mis ac anghymhwyso hyd at 5 mlynedd.

## 3. ARGYMHELLIAD

I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb yr adroddir arnynt yn **ATODIAD 1**.

| **Enw'r Cyngor** | **Crynodeb o'r Gŵyn** | **Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau** |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Rhif Achos: 201804590 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn am Aelod o Gyngor Wrecsam. Honnwyd bod ymddygiad yr Aelodau wedi dwyn anfri ar y Cyngor yn groes i'r Cod Ymddygiad. Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i'r materion y cafwyd cwyn amdanynt. Rhoddwyd gwybodaeth gan bartïon perthnasol gan gynnwys y Cyngor. | Dyletswydd i gynnal y gyfraith | Ar ôl ystyried yn ofalus y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad, penderfynodd yr Ombwdsmon na fyddai er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd materion ymhellach ac na ddylid cymryd unrhyw gamau ynglŷn â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. | Ychydig iawn o wybodaeth a ddarperir yn y crynodeb o'r achos. Nid oes digon o dystiolaeth yma i ystyried unrhyw bwyntiau dysgu. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| 2. Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn - Rhif Achos: 201906707 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnwyd nad oedd yr Aelod wedi dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill, wedi bwlio ac wedi ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar y Cyngor.<br><br>Yn ystod camau cynnar yr ymchwiliad, cyflwynodd yr Aelod adroddiad. Dywedodd ei fod yn credu bod cyfiawnhad dros ei weithredoedd a chynigiodd ymddiheuriad os oedd yr Achwynydd wedi cael camargraff o'i bendantrwydd. | Hybu cydraddoldeb a pharch | Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod ymateb yr Aelod a'i ymddiheuriad yn ddigonol i ddatrys y gŵyn. Felly, ystyriodd yr Ombwdsmon nad oedd angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. | Ychydig iawn o wybodaeth a ddarperir yn y crynodeb o'r achos. Fodd bynnag, mae'n dangos bod yr Ombwdsmon yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam a bod y trothwy ar gyfer yr elfen "budd i'r cyhoedd" (yr ail gam) yn uchel.<br>Gall dangos edifeirwch gynorthwyo aelodau sydd wedi torri'r Cod ond efallai na fydd yn ddigon bob amser i'r Ombwdsmon ystyried nad oes angen cymryd camau pellach. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| 3.<br>Cyngor Cymuned Sain Dunwyd – Rhif Achos: 201905525 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Cymuned Sain Dunwyd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnwyd bod yr Aelod wedi methu â datgan buddiant personol a rhagfarnllyd pan oedd yn eistedd ar y Panel Cyfweld yn ystod cyfweliad ar gyfer rôl Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor Cymuned. | Datgelu a chofrestru buddiannau | Canfu'r Ombwdsmon fod gan yr Aelod ddiddordeb personol yn y cyfweliad oherwydd ei pherthynas â brawd yr ymgeisydd gan gyfaddef nad oeddent ar delerau da a bod tensiwn rhyngddynt. Barn yr Ombwdsmon oedd y byddai aelod o'r cyhoedd, gyda gwybodaeth am yr amgylchiadau, yn ystyried bod budd yr Aelod mor arwyddocaol fel y byddai'n niweidio ei barn ynghylch budd y cyhoedd.<br><br>Canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod wedi cael gwybod gan y Clerc nad oedd yn ofynnol iddi ddatgan buddiant yn y cyfweliad. Er mai cyfrifoldeb pob aelod unigol yw penderfynu datgan buddiant, nid oedd yn afresymol i'r Aelod fod wedi gweithredu ar gyngor y Clerc.<br><br>Roedd yr ymchwiliad yn ystyried a oedd methiant yr Aelod i ddatgan buddiant personol a rhagfarnllyd wedi achosi unrhyw niwed ac a oedd wedi effeithio ar y penderfyniad i benodi i rôl Aelod Cyfetholedig.<br><br>Nid oedd unrhyw dystiolaeth ddogfennol na chofnod ysgrifenedig o'r cyfweliadau. Felly, roedd penderfyniad yr Ombwdsmon yn seiliedig ar y ffaith | Ni ddylai aelodau ddibynnu ar yr achos hwn fel amddiffyniad dros gymryd rhan mewn penderfyniad pan fydd ganddynt fuddiant personol/rhagfarnllyd yn y mater.<br><br>Roedd y ffaith bod yr aelod wedi derbyn cyngor gan y Clerc ynglŷn â'r buddiant o gymorth i'r aelod fel amddiffyniad yn erbyn yr honiad hwn. Fodd bynnag, mae'n glir mai cyfrifoldeb pob aelod yw datgan buddiant neu beidio datgan buddiant.<br><br>Dengys yr achos bod yr Ombwdsmon yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam ac mae'r trothwy ar gyfer "budd i'r cyhoedd" (yr ail gam) yn uchel. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | | | bod y penderfyniad i benodi'r ymgeisydd llwyddiannus wedi'i wneud yn unfrydol gan y Panel Cyfweld. Ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael, nid ystyriwyd bod presenoldeb yr Aelod a'i rhan yn y broses gyfweld wedi cael effaith andwyol ar gais yr ymgeisydd.<br><br>Oherwydd y ffactorau hyn, daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen i'r Ombwdsmon gymryd camau pellach er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, argymhellodd i Glerc y Cyngor y dylid rhoi hyfforddiant ar fuddiannau'r aelodau a'u rhwymedigaethau dan y Cod Ymddygiad i'r Cyngor. | |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| 4.<br>Cyngor Cymuned St Harmon – Rhif Achos: 201903933 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn a oedd yn nodi bod Cynghorydd Cyngor Cymuned St Harmon wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau. Honnwyd nad oedd yr Aelod wedi dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill, a'i fod wedi methu â chymryd camau priodol ynghylch buddiant personol a rhagfarnllyd a oedd ganddo mewn proses cyfethol a gynhaliodd y Cyngor. | Datgelu a Chofrestru Buddiannau | Yn ystod yr ymchwiliad, gofynnwyd am wybodaeth gan y Cyngor yn ogystal â gan nifer o dystion.<br><br>Nid oedd y dystiolaeth a gasglwyd yn cadarnhau bod ymddygiad yr Aelod wedi dangos methiant i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill fel y gellid ystyried ei fod wedi torri'r Cod.<br><br>Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod yr Aelod wedi methu â chymryd camau priodol ynghylch buddiant personol a rhagfarnllyd a oedd ganddo yn y broses gyfethol. Fodd bynnag, nid oedd yr Aelod wedi dylanwadu ar y penderfyniad a wnaed ynghylch cyfethol mewn unrhyw ffordd. Roedd eisoes wedi cydnabod, derbyn ac ymddiheuro am ei weithredoedd ac roedd wedi cymryd camau i geisio hyfforddiant ar ei rwymedigaethau o dan y Cod.<br><br>Felly, canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim angen gweithredu pellach yng nghyswllt y materion oedd yn destun yr ymchwiliad. | Ni ddylai aelodau ddibynnu ar yr achos hwn fel amddiffyniad dros gymryd rhan mewn penderfyniadau pan fydd ganddynt fuddiant personol/rhagfarnllyd yn y mater.<br><br>Dengys yr achos bod yr Ombwdsmon yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam ac mae'r trothwy ar gyfer "budd i'r cyhoedd" (yr ail gam) yn uchel. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| 5.<br>Cyngor Sir Caerfyrddin – Rhif Achos: 201900874 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnwyd bod yr Aelod wedi methu â thrin aelodau o staff y Cyngor gyda pharch ac ystyriaeth, wedi torri cyfrinachedd, ac wedi dwyn anfri ar swydd y Cynghorydd ynglŷn â 2 ddigwyddiad a ddigwyddodd yn ystod y broses ddethol ar gyfer Prif Weithredwr newydd y Cyngor.<br>– Y digwyddiad cyntaf oedd bod yr Aelod wedi rhoi gwybod yn fwriadol i'r ymgeisydd aflwyddiannus nad oedd wedi cael y swydd, gan osgoi'r gweithdrefnau Adnoddau Dynol ("AD") a oedd ar waith.<br>– Yr ail ddigwyddiad oedd bod yr Aelod wedi anwybyddu cyfarwyddyd clir na ddylai Cynghorwyr roi cyhoeddusrwydd i enw'r ymgeisydd llwyddiannus am 30 munud. | Uniondeb | Mewn perthynas â'r ddau ddigwyddiad:<br><br>- Bu'r Ombwdsmon yn cyfweld nifer o dystion a chanfu fod y dystiolaeth yn awgrymu bod yr Aelod wedi rhoi gwybod yn ddamweiniol i'r ymgeisydd aflwyddiannus nad oedd wedi cael y swydd ac nad oedd wedi bwriadu osgoi gweithdrefnau Adnoddau Dynol. Derbyniodd yr Ombwdsmon fod yr Aelod wedi dangos edifeirwch ac wedi ymddiheuro. Penderfynodd yr Ombwdsmon na thorrwyd y Cod gan mai camgymeriad gwirioneddol gan yr Aelod oedd hyn.<br><br>- Penderfynodd yr Ombwdsmon fod tystiolaeth bod yr Aelod wedi anwybyddu cyfarwyddyd clir i beidio â rhoi cyhoeddusrwydd i enw'r ymgeisydd llwyddiannus, ac y gallai hyn fod wedi arwain at dorri'r Cod.<br><br>Nid oedd yr Aelod wedi ystyried yr effaith ar yr ymgeiswyr, eu ffrindiau a'u teuluoedd ehangach, na'r staff a gyflogir gan y Cyngor ac felly roedd wedi methu dangos pob parch | Ni ddylai aelodau ddibynnu ar yr achos hwn fel amddiffyniad dros ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol a gafwyd yn eu rôl fel Aelodau.<br><br>Dengys yr achos bod yr Ombwdsmon yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam ac mae'r trothwy ar gyfer "budd i'r cyhoedd" (yr ail gam) yn uchel. |

| Enw’r Cyngor | Crynodeb o’r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o’r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i’r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | | | wrth gyhoeddi’r canlyniad. Ar ben hynny, roedd yr wybodaeth yn gyfrinachol nes bod y gweithdrefnau priodol i roi cyhoeddusrwydd i’r penodiad wedi’u cwblhau, ac roedd yr Aelod wedi achub y blaen arnynt.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon y gallai'r camau hyn ddwyn anfri ar swydd y Cynghorydd. Fodd bynnag, nid oedd yr Ombwdsmon wedi’i ddarbwyllo y byddai’n gymesur ac er budd y cyhoedd i gyfeirio’r mater at y Pwyllgor Safonau, oherwydd y cyfnod byr o amser y datgelwyd yr wybodaeth cyn y cyhoeddiad swyddogol, ac ystyried barn yr ymgeiswyr bod yr effaith arnynt yn gyfyngedig. Fodd bynnag, credai ei bod wedi bod yn briodol i’r mater gael ei gyfeirio ato.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim angen gweithredu pellach yng nghyswllt y materion oedd yn destun yr ymchwiliad. | |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| 6.<br>Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref – Rhif Achos: 201904216 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Cymuned Llanilltud Faerdref wedi torri'r Cod Ymddygiad.<br>Honnwyd bod yr Aelod wedi gwneud nifer o gyhuddiadau yn erbyn Cynghorwyr Cymuned a oedd yn gwasanaethu yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar 24 Medi 2019.<br><br>Honnwyd ymhellach bod yr Aelod wedyn wedi rhannu copi ysgrifenedig o'i anerchiad, lle'r oedd yn cyhuddo Cynghorwyr Cymuned o fwlio cyn-Glerc y Cyngor Cymuned, gydag aelodau'r wasg a'r cyhoedd oedd yn bresennol. | Hybu cydraddoldeb a pharch<br><br>Ystyriodd yr ymchwiliad baragraffau canlynol y Cod:<br>• Paragraff 5(a) – datgelu gwybodaeth gyfrinachol.<br>• Paragraff 6(1)(a) – dwyn anfri.<br>• Paragraff 6(1)(c) – rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro am achosion o dorri'r Cod.<br>• Paragraff 6(1)(d) – cwynion blinderus, gwamal neu faleisus.<br>• Paragraff 8(a) – gan roi sylw i gyngor swyddogion yr awdurdod. | Canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod wedi annerch y Cyngor Cymuned yn ei gyfarfod ar 24 Medi 2019, lle'r oedd aelodau'r wasg a'r cyhoedd yn bresennol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn ystod y cyfarfod.<br><br>Canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod wedi gwneud sawl cyhuddiad yn erbyn aelodau eraill o'r Cyngor yn ystod ei anerchiad. Yn hytrach na mynegi ei bryderon yn gyhoeddus, dylai'r Aelod fod wedi codi ei bryderon drwy'r prosesau priodol sydd ar gael ar gyfer gwneud hynny. Gallai codi cyhuddiadau mewn fforwm cyhoeddus o'r fath pan nad oedd gan y rhai a gyhuddwyd gyfle teg i ymateb fod yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad.<br><br>Canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod wedi diystyru cyngor gan Glerc y Cyngor a bod ei weithredoedd yn groes i baragraff 8(a) y Cod.<br><br>Wrth benderfynu a ddylid cymryd camau pellach ynglŷn â'r achosion posibl hyn o dorri'r Cod Ymddygiad, roedd yr Ombwdsmon wedi ystyried yn ofalus a oedd er budd y cyhoedd iddo wneud hynny. | Ni ddylai Aelodau ddibynnu ar yr achos hwn.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon yn ystyried bod ymwneud y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn materion dilynol yn y Cyngor Cymuned hwn yn ddigonol iddo beidio â mynd ar drywydd y mater hwn ymhellach. |

| Enw’r Cyngor | Crynodeb o’r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o’r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i’r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ystyriodd yr Ombwdsmon y camau diweddar a gymerwyd gan Swyddog Monitro Rhondda Cynon Taf a Chadeirydd Pwyllgor Safonau’r Cyngor i gwrdd â’r mwyafrif o aelodau’r Cyngor ym mis Chwefror i annog gwell perthynas waith yn y Cyngor. Cafwyd ar ddeall y daethpwyd i gytundeb ar y cyd ynghylch cymryd agwedd newydd at sut i ddelio â sefyllfaoedd blaenorol lle’r oedd anghytundebau wedi dirywio i ymosodiadau personol. Roedd yr Aelod yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Gan fod y digwyddiadau a ystyriwyd fel rhan o’r ymchwiliad hwn wedi digwydd rai misoedd cyn y cyfarfod gyda’r Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, nid oedd o fudd i’r cyhoedd fynd ar drywydd yr ymchwiliad hwn ymhellach. | |

| **Enw'r Cyngor** | **Crynodeb o'r Gŵyn** | **Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau** |
|---|---|---|---|---|
| 7.<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Rhif Achos: 202000681 a 202000667 | Cafodd yr Ombwdsmon gwynion bod Aelod etholedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau.<br>Roedd dau Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cwyno bod yr Aelod, ar 7 Mehefin 2020, wedi dynesu atynt wrth Lyn Cychod Cwmbrân mewn ffordd ymosodol. Fe ddywedon nhw fod yr Aelod yn gweiddi ac yn mynnu eu bod yn delio â phobl a oedd yn pysgota yn y Llyn yn ystod y tymor caeedig. Fe ddywedon nhw nad oedd yr Aelod yn derbyn nad oedd yn fater i'r heddlu. Dywedodd ei fod yn Gynghorydd gan geisio defnyddio ei swyddogaeth fel bygythiad. | Hybu cydraddoldeb a pharch | Derbyniodd yr Ombwdsmon adroddiad gan yr Aelod, cafwyd datganiad tyst gan Gynghorydd arall a oedd yn bresennol yn y Llyn, a chafodd wybodaeth gan Heddlu Gwent. Ar sail tebygolrwydd, roedd y dystiolaeth yn dangos y gallai'r Aelod fod wedi torri paragraff 4(b) o'r Cod drwy godi ei lais â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.<br><br>Canfu'r ymchwiliad nad oedd unrhyw ddadl bod yr Aelod yn ystyried ei hun yn Gynghorydd. Eglurodd yr Aelod ei fod wedi gwneud hynny i esbonio ei wybodaeth am ddeddfwriaeth pysgota.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon fod yr Aelod wedi cysylltu â Heddlu Gwent i ofyn am eglurhad ynghylch gorfodi deddfwriaeth pysgota ac i fynegi pryder nad oedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi siarad â'r pysgotwyr, nac wedi eu cynghori, fel y dywedasant wrtho eu bod wedi gwneud.<br><br>Ni chanfu'r Ombwdsmon ddigon o dystiolaeth bod yr Aelod wedi bwlio a/neu harasio, na'i fod wedi dwyn anfri ar yr awdurdod. | Mae'r Ombwdsmon yn annog hyfforddiant diweddaru ar y Cod. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | | | Canfu'r Ombwdsmon, er bod y dystiolaeth yn awgrymu y gallai'r Aelod fod wedi torri paragraff 4(b) o'r Cod, nad oedd er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd materion ymhellach.<br><br>Gofynnodd yr Ombwdsmon i'r Aelod ystyried sut gallai ei ymddygiad gael ei weld yn rhinwedd ei rôl fel Cynghorydd ac awgrymodd y dylai gwblhau hyfforddiant diweddaru ar y Cod. | |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| 8. Cyngor Tref Glyn Nedd – Rhif Achos: 201904472 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Sir Glyn-nedd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Cwynodd aelod o'r cyhoedd pan ddaeth yr Aelod i Neuadd y Dref Glyn-nedd ar 20 Medi 2019 gan ddweud ei bod wedi ymddwyn yn ymosodol ac wedi gweiddi arnynt, a bod yr Aelod wedi bygwth "rhoi terfyn" i'w Cytundeb Llogi Neuadd gyda'r Cyngor. | Hybu cydraddoldeb a pharch | Cafodd yr Ombwdsmon ddatganiadau tystion anghyson gan 3 aelod o'r cyhoedd, yn ogystal â'r achwynydd a'r Aelod.<br><br>Ar sail tebygolrwydd, roedd y dystiolaeth yn dangos y gallai'r Aelod fod wedi torri paragraff 4(b) o'r Cod drwy weiddi ar yr aelod o'r cyhoedd. Ni chanfu'r Ombwdsmon ddigon o dystiolaeth bod yr Aelod wedi bwlio na'i bod wedi dwyn anfri ar ei hawdurdod. Ar ben hynny, nid oedd tystiolaeth ategol bod yr Aelod wedi bygwth na fyddai'r achwynydd yn cael llogi'r Neuadd yn y dyfodol, na bod yr Aelod wedi gweithredu ar fygythiad o'r fath.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon, er bod y dystiolaeth yn awgrymu y gallai'r Aelod fod wedi torri paragraff 4(b) o'r Cod, nad oedd er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd materion ymhellach, yn sgil yr wybodaeth anghyson a gafwyd.<br><br>Argymhellodd yr Ombwdsmon i'r Cyngor y dylai drefnu hyfforddiant ar y Cod i'w Aelodau cyn gynted ag y bo'n ymarferol. | Mae'r Ombwdsmon yn annog hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Aelodau. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| 9. Cyngor Tref Tywyn – Rhif Achos: 201900952 | Roedd un o swyddogion Cyngor Tref Tywyn wedi cwyno bod aelod wedi ysgrifennu llythyr amharchus at drydydd parti.<br><br>Dywedodd yr aelod nad oedd yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel Aelod wrth ysgrifennu'r llythyr. | Hybu cydraddoldeb a pharch<br><br>Roedd ymchwiliad yr Ombwdsmon yn ystyried a allai cynnwys y llythyr fod wedi torri paragraffau 4(b) a 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ("y Cod"). | Canfu'r Ombwdsmon, gan fod y llythyr yn cyfeirio at fusnes y Cyngor, ei bod yn rhesymol casglu bod yr aelod wedi rhoi'r argraff ei fod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel Aelod o'r Cyngor pan ysgrifennodd y llythyr. Canfu'r Ombwdsmon fod y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed gan yr Aelod yn wleidyddol eu natur.<br>Fodd bynnag, ystyriwyd bod sylwadau'r Aelod i dderbynnydd trydydd parti'r llythyr yn amharchus. Er bod yr Ombwdsmon o'r farn bod y sylwadau hynny'n awgrymu bod paragraff 4(b) o'r Cod wedi'i dorri (methiant i ddangos parch), ar ôl ystyried yr wybodaeth a roddwyd gan y derbynnydd a'r dystiolaeth ehangach a oedd ar gael, nid oedd yn credu y byddai'n gymesur nac er budd y cyhoedd i unrhyw gamau pellach gael eu cymryd.<br><br>Nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod tystiolaeth i awgrymu bod cynnwys y llythyr a anfonwyd gan yr aelod yn awgrymu bod paragraff 6(1)(a) o'r Cod wedi'i dorri (dwyn anfri ar swydd neu awdurdod). | |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| 10.<br>Cyngor Cymuned y Mwmbwls – Rhif Achos: 201904820 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn am y Cod Ymddygiad a oedd wedi'i gyfeirio ei hun gan Aelod o'r Cyngor Cymuned oherwydd ei fod wedi'i enwi mewn Adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch gwariant heb ei awdurdodi gan y Cyngor. | Dyletswydd i gynnal y gyfraith<br><br>Ystyriodd yr Ombwdsmon a allai'r Aelod fod wedi torri paragraff 7(b) (i), (ii), (iii) o'r Cod i ddefnyddio adnoddau'r Cyngor a oedd yn annoeth, yn groes i ofynion yr awdurdod ac yn anghyfreithlon. | Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod Ymgynghoriaeth Gynllunio wedi bilio'r Cyngor am waith nad oedd wedi'i gytuno, a dywedodd yr Ymgynghoriaeth Gynllunio ei fod wedi'i gyfarwyddo gan yr Aelod. Dywedodd yr Aelod adeg y digwyddiadau ei fod yn newydd i'r Cyngor a'i fod yn meddwl bod y gwaith a wnaed i'r Cyngor gan yr Ymgynghoriaeth Gynllunio wedi bod yn rhan o drefniant y cytunwyd arno'n flaenorol gyda'r Cyngor. Dywedodd yr Aelod nad oedd wedi gweithio gydag ymgynghorwyr cynllunio o'r blaen ac nad oedd wedi sylweddoli y byddai ei gyfathrebu penodol â hwy yn arwain at gostau ychwanegol.<br><br>Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod gan yr Aelod gyfrifoldeb i ddeall telerau trefniadau'r Cyngor yn llawn gyda'r Ymgynghoriaeth Gynllunio, ac y gellid ystyried yn rhesymol bod gweithredoedd a methiant yr Aelod i wneud hynny yn achos posibl o dorri paragraff 7(b), (i), (ii), (iii) o'r Cod.<br><br>Fodd bynnag, canfu'r Ombwdsmon hefyd, er bod y Clerc wedi awgrymu y dylai'r Aelod gysylltu â'r Ymgynghoriaeth Gynllunio, nad oedd yr Aelod wedi cael arweiniad | |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | | | clir ar oblygiadau gwneud hynny, a bod cyfathrebu'r Aelod wedi cael effaith gyfyngedig ar y gwariant cyffredinol. Hefyd, nid oedd Archwilio Cymru wedi ymgysylltu â'r Aelod na'r Ymgynghoriaeth Gynllunio i sefydlu pa gyfarwyddyd yr oedd yn ei briodoli i'r Aelod.<br><br>Ar ôl ystyried y dystiolaeth a oedd ar gael a'r wybodaeth a roddwyd gan yr Aelod, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai'n gymesur nac er budd y cyhoedd i unrhyw gamau pellach gael eu cymryd. | |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| 11. Cyngor Sir Ddinbych – Rhif Achos: 201806601 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Sir Ddinbych wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i Aelodau'r Cyngor. Honnwyd bod yr aelod wedi cam-ddefnyddio ei sefyllfa drwy ymweld â man gwaith aelod o'r cyhoedd a chwyno wrth ei chyflogwr am ffrae breifat rhyngddi hi ac un o'i hetholwyr ym maes parcio'r siop leol. | Gwrthrychedd a phriodoldeb | Penderfynodd yr Ombwdsmon fod tystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod wedi ymddwyn mewn ffordd a oedd yn bwlio ac yn harasio, a bod ei weithredoedd yn ceisio creu anfantais i'r aelod o'r cyhoedd yng ngolwg ei chyflogwr. Roedd y dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod ymddygiad o'r fath yn gallu gwneud drwg i enw da'r Cyngor a dwyn anfri arno. Penderfynodd yr Ombwdsmon fod yr aelod wedi methu â chadw at baragraffau 4(c), 6(1)(a) a 7(a) o God Ymddygiad y Cyngor.<br><br>Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro'r Cyngor i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau.<br><br>Ar hyn o bryd, nid yw gwefan Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys dolen i'r cyfarfod ble trafodwyd yr adroddiad hwn. https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=212&LLL=1<br>Fodd bynnag, mae'n glir o Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2020 bod "gwrandawiad arbennig o'r pwyllgor safonau" wedi'i gynnal. Ni chyhoeddwyd unrhyw wybodaeth bellach. | |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| 12.<br>Cyngor Cymuned Trelales – rhif Achos: 201807411 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cyn Aelod o Gyngor Cymuned Trelales wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i Aelodau'r Cyngor. Honnwyd bod yr Aelod Blaenorol wedi camddefnyddio arian y Cyngor drwy godi arian parod a thrafodion cardiau debyd heb awdurdod rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Ionawr 2019. Cynhaliwyd ymchwiliad gan yr heddlu, ac wedi hynny ymddiswyddodd y Cyn Aelod o'r Cyngor.<br><br>Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod y Cyn-Aelod, adeg y digwyddiadau, wedi ysgwyddo dyletswyddau ychwanegol ac wedi derbyn lwfansau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor. Canfuwyd bod y Cyn-Aelod wedyn yn cymryd cyfrifoldeb dros gerdyn debyd y Cyngor ac yn ei ddefnyddio ar gyfer prynu nwyddau a chodi arian parod a oedd yn fwy na'r hyn a dderbyniodd eisoes ac na ellid rhoi cyfrif amdano. Dywedodd y Cyn-Aelod ei fod wedi defnyddio cyllid y Cyngor fel hyn oherwydd ei fod yn teimlo bod ganddo hawl i'r arian; fodd bynnag, ni roddodd unrhyw | Dyletswydd i gynnal y gyfraith | Penderfynodd yr Ombwdsmon y gallai'r Cyn Aelod fod wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor, yn benodol, paragraffau 7(a) a 7(b) i), ii), iii), iv) a vi) gan ei fod wedi ceisio cael mantais bersonol ac ariannol drwy gael gafael ar gyllid y Cyngor heb awdurdod, ac wedi camddefnyddio arian y Cyngor.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon hefyd y gellid yn rhesymol ystyried gweithredoedd ac euogfarn y Cyn-Aelod yn ymddygiad a allai ddwyn anfri ar swydd yr aelod neu'r Cyngor a thorri paragraff (6(1)(a) y Cod Ymddygiad o bosibl.<br><br>Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau.<br><br>Ar hyn o bryd, nid yw gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys gwybodaeth o sylwedd mewn perthynas â'r cyfarfod ble cafodd yr adroddiad hwn ei ystyried.<br><br>Mae'n glir o Gofnodion y cyfarfod ar 25.02.2021 y rhoddwyd ystyriaeth i ymchwiliad ac | |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | wybodaeth bellach i awgrymu bod ei drafodion er budd y Cyngor. | | adroddiad yr Ombwdsmon ond roedd y wasg a'r cyhoedd wedi cael eu heithrio yn ystod yr eitem gan fod yr eitem yn ymwneud ag unigolyn. https://democratic.bridgend.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=133&MId=4036&Ver=4&LLL=1 Ni chyhoeddwyd unrhyw wybodaeth bellach. | |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| 13. Cyngor Cymuned Sili a Larnog – Rhif Achos: 201901994 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Cymuned Sili a Larnog wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i Aelodau etholedig. Honnwyd bod yr Aelod wedi rhoi cyfres o negeseuon cyhoeddus, ar y llwyfan cyfryngau cymdeithasol Facebook, a allai niweidio enw da'r Cyngor o bosibl. | Uniondeb | Canfu'r Ombwdsmon fod 3 neges gyhoeddus, rhwng 10 Ionawr ac 11 Mawrth 2019, a oedd yn cyfeirio at wleidyddion benywaidd uchel eu proffil, yn dramgwyddus iawn ac y gellid eu hystyried yn rhesymol fel rhai a oedd yn dwyn anfri ar Swydd neu Awdurdod y Cynghorydd ac a oedd yn awgrymu torri paragraff 6(1)(a) y Cod Ymddygiad. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn mynd y tu hwnt i fynegiant gwleidyddol a'i bod mor eithriadol, petai achos o dorri'r Cod Ymddygiad yn cael ei gadarnhau a chosb yn cael ei gosod, y byddai'n gam cymesur â hawl y Cynghorydd i ryddid mynegiant.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon hefyd fod y Cynghorydd wedi methu â rhoi tystiolaeth yr oedd yn honni ei bod yn ei dal o ran preifatrwydd y negeseuon a'i fod, drwy wrthod rhoi gwybodaeth, wedi methu â chydymffurfio â chais mewn cysylltiad â'r ymchwiliad a oedd yn awgrymu bod paragraff 6(2) o'r Cod Ymddygiad wedi'i dorri.<br><br>Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad ymchwilio at Banel Dyfarnu Cymru i'w ystyried.<br><br>Gellir gweld adroddiad Panel | |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Y Ddarpariaeth Berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Pwyntiau Dysgu i'r Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| | | | Dyfarnu Cymru yma. https://paneldyfarnu.llyw.cymru/apw0022020-021ct-cynghorydd-philip-baguley-saesneg-yn-unig<br><br>Mae'r achos hwn yn destun adroddiad ar wahân (eitem 7 ar y rhaglen) a gyflwynir i'r Pwyllgor Safonau ar benderfyniadau diweddar Panel Dyfarnu Cymru. | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **16 Mehefin 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru hyd yma (a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 15 Rhagfyr 2020)** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

1. Ffurfio tribiwnlysoedd achosion, neu dribiwnlysoedd achos interim, er mwyn ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn dilyn ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod; ac

2. I ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau eu hawdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a roddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020. Bwriedir iddo fod yn grynodeb ffeithiol o'r materion a benderfynwyd gan y PDC. Mae'r achosion a nodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar Wefan PDC

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Mae crynodeb o'r achosion perthnasol wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1.**

### 2.1 Penderfyniadau a wnaed

APW/002/2020-021/CT: Cynghorydd Philip Baguley – 16 Rhagfyr 2020

CC-022335/MY/644308

[APW/001/2020-021/CT - Cynghorydd Kevin O'Neill] – 18 a 22 Rhagfyr 2020

**2.2 Apeliadau a benderfynwyd**

Dim yn ystod y cyfnod hwn.

## 3. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys y crynodebau achos.

# ATODIAD 1

## Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achosion – Rhagfyr 2020 – Mehefin 2021

| Enw | Crynodeb o'r ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Y (cyn) Gynghorydd Philip Baguley<br><br>Cyngor Cymuned Sili a Larnog<br><br>APW/002/2020-021/CT | Honnwyd bod y Cynghorydd Baguley wedi torri Cod Ymddygiad i Aelodau Cyngor Cymuned Sili a Larnog pan roddodd dair neges gyhoeddus ar Facebook ar 10 Ionawr, 9 Mawrth a 11 Mawrth 2019, yr honnwyd y gellid eu hystyried yn rhesymol fel rhai a oedd yn dwyn anfri ar Swydd neu Awdurdod y Cynghorydd ac a oedd yn awgrymu torri paragraffau 6(1)(a) y Cod Ymddygiad (Honiad 1).<br><br>Mae'r negeseuon yn cael eu hailadrodd yn y crynodeb o'r Penderfyniad ac maent yn cynnwys barn gref am dri gwleidydd uchel eu proffil yn y DU [y Blaid Lafur] ac yn cynnwys rhegfeydd.<br><br>Yn ystod ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), ehangwyd yr ymchwiliad gan yr Ombwdsmon i gynnwys Honiad 2. Roedd yr honiad hwn yn ymwneud â honiad bod y Cynghorydd wedi methu â rhoi gwybodaeth a thystiolaeth ynghylch preifatrwydd y negeseuon perthnasol, a'i fod wedi methu â chydymffurfio â chais gan yr | Mewn perthynas â **Honiad 1**, penderfynodd PDC:<br>- Bod y Cynghorydd yn gweithredu fel unigolyn preifat pan roddodd y tair neges gyhoeddus dan sylw ar Facebook.<br>- Er bod y negeseuon Facebook wedi cael eu hysgrifennu yng nghyd-destun rhannu safbwyntiau gwleidyddol ar Facebook, roedd y sylwadau y cafwyd cwynion yn eu cylch yn mynd ymhell tu hwnt i'r hyn y gellid ei ystyried yn rhesymol fel mynegiant gwleidyddol. Fodd bynnag, roedd yn hawdd gwahanu'r drafodaeth wleidyddol a'r sylwadau a oedd yn destun Honiad 1. Roedd y sylwadau'n rhai ymfflamychol ac yn fynegiant o safbwyntiau a oedd yn eithafol, yn fygythiol eu natur ac yn hyrwyddo trais tuag at unigolion. Nid oedd modd rhoi urddas i'r sylwadau drwy eu disgrifio fel mynegiant gwleidyddol.<br>- Hyd yn oed os nad oedd yr Ymatebydd yn ymwybodol o statws preifatrwydd ei negeseuon pan gyhoeddwyd y negeseuon ganddo, er gwaetha'r eicon glôb gweladwy a oedd yn dangos eu bod yn gyhoeddus, roedd yr Ymatebydd o leiaf yn fyrbwyll i'r ffaith honno, a chanfu'r Tribiwnlys, yn ôl yr | **Honiad 1**<br>Mae Paragraff 2(1)(d) y Cod yn datgan;<br>"... *Rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn cysylltiad ag ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7*."<br>Mae Paragraff 6(1)(a) y Cod yn datgan;<br>"*Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod."*<br><br>Roedd y Tribiwnlys Achos wedi canfod bod y tair neges Facebook mor eithafol a dybryd, ac er gwaetha'r ffaith bod rhyddid i fynegiant yn hawl dynol sylfaenol, roedd rhaid cael terfynau. Ystyriodd PDC fod y negeseuon yn mynd ymhell tu hwnt i'r hyn y gellid yn rhesymol ei oddef mewn cymdeithas ddemocrataidd ac ar y sail hynny, roedd yn angenrheidiol o safbwynt budd y cyhoedd i gynnal safonau ymddygiad priodol gan Aelodau awdurdodau lleol drwy ganfod bod yr Ymatebydd wedi torri Paragraff 6(1)(a) y Cod, er mwyn gwarchod diogelwch y cyhoedd ac enw da a hawliau eraill.<br><br>**Honiad 2**<br>Mae Paragraff 6(2) yn datgan; "*Rhaid i chi* |

| Enw | Crynodeb o'r ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Ombwdsmon mewn cysylltiad ag ymchwiliad a gynhaliwyd yn unol â'i bwerau statudol a'i fod o'r herwydd wedi torri Paragraff 6(2) o'r Cod (Honiad 2) | hyn sy'n debygol, bod yr Ymatebydd yn ymwybodol o'r statws cyhoeddus. Roedd yn hen law ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac roedd yn anfon negeseuon rheolaidd a mynych ac nid oedd yn ystyried y canlyniadau. Mewn un neges, nad oedd yn ymwneud â'r Honiad, roedd wedi datgan; "Byddaf yn cael fy ngwahardd oddi ar Facebook eto am ei ddweud...". Roedd ei ymatebion i'r cwestiynau cyfweliad ysgrifenedig yn dangos nad oedd yr Ymatebydd yn poeni fawr a oedd ei dudalen yn gyhoeddus neu'n breifat.<br>- Roedd y Tribiwnlys Achos yn ystyried bod gwleidyddion uchel eu proffil, drwy gyfranogi mewn bywyd cyhoeddus yn rhoi eu hunain yn agored i graffu manwl, ac yn wir, gwawd a choegni. Roedd disgwyl iddynt fod yn groendew ac i ddangos mwy o oddefgarwch na dinasyddion cyffredin. Fodd bynnag, ni ddylai goddefgarwch o'r fath gynnwys sylwadau personol, ymfflamychol a dybryd a oedd yn cynnwys bygythiadau gan wleidyddion eraill neu annog trais eithafol neu farwolaeth, hyd yn oed os oeddent yn gweithredu fel unigolion preifat, gan gynnwys ar lefel Cynghorydd Cymuned. Roedd y sylwadau yn ymosodiadau personol, annifyr a di-alw, nid yn fynegiant gwleidyddol | *gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol*."<br><br>Roedd y Tribiwnlys Achos wedi dod i gasgliad ar sail y ffeithiau bod yr Ymatebydd wedi osgoi yn fwriadol ateb ceisiadau rhesymol yr Ombwdsmon drwy gyfrwng ymdrechion y Swyddog Ymchwilio i gwblhau'r ymchwiliad yn unol â phwerau statudol yr Ombwdsmon. Roedd yn dilyn yn anochel felly bod PDC yn ystyried fod Paragraff 6(2) y Cod wedi cael ei dorri.<br><br>**Cosb:**<br>Cafodd yr Aelod ei anghymhwyso am 15 mis.<br><br>**<u>Pwyntiau dysgu ar gyfer aelodau etholedig</u>**<br><br>• Mae sylwadau gaiff eu gwneud ar y Cyfryngau Cymdeithasol, hyd yn oed mewn capasiti preifat, yn gallu bod yn destun y Cod Ymddygiad. Mae canllaw ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau (sydd wedi ei gynhyrchu gan CLILC) ar gael yma.<br><br>• Ystyriodd y Tribiwnlys Achos Ganllaw'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad. Mae'r Canllaw hwn wedi cael ei ddiweddaru yn ddiweddar ac yn destun eitem ar wahan ar y rhaglen (eitem 11). |

| Enw | Crynodeb o’r ffeithiau | Crynodeb o’r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | Mewn perthynas â **Honiad 2**, penderfynodd PDC –<br>- Bod y Cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â cheisiadau’r Ombwdsmon am wybodaeth mewn perthynas â newid yn ei osodiadau preifatrwydd. Canfu’r panel, yn ôl yr hyn sy’n debygol, nad oedd ymateb gwreiddiol yr Ymatebydd bod Facebook wedi cadarnhau bod y gosodiadau wedi bod yn breifat ers 2013 yn ymateb gonest ac y cafodd ei ysgrifennu mewn ymgais i leihau natur ac effaith y negeseuon Facebook.<br>- Roedd y Tribiwnlys Achos yn ystyried bod ymatebion yr Ymatebydd wedi hynny yn cynnwys amryw o esgusodion a ni chyflwynwyd tystiolaeth neu fanylion am unrhyw drafodaeth berthnasol gyda Facebook i gadarnhau bod negeseuon Facebook yr Ymatebydd wedi bod yn breifat ers 2013.<br>Cyfeiriwyd at drafodaeth gyda Facebook ond dywedodd yr Ymatebydd nad oedd hynny wedi “cyflawni dim” yn yr achos hwnnw. Yna dywedodd nad oedd yn gwybod sut i wirio unrhyw newid yn y gosodiadau a ddigwyddodd yn 2013, er ei fod yn amlwg â chryn brofiad o ddefnyddio Facebook ac nid oedd y Tribiwnlys yn ystyried bod hwn yn ateb hollol onest. Ac eithrio canllaw a roddodd yr Ymchwiliwr i’r | • Mae paragraff 6(2) y Cod Ymddygiad yn nodi’r gofyn i aelodau gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro’r awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â’u gwahanol bwerau statudol. Mae methiant i wneud hyn yn gallu arwain at dorriad o’r Cod a/neu cosb mwy llym.<br><br>**<u>Pwyntiau dysgu ar gyfer y Pwyllgor Safonau</u>**<br><br>Er nad yw’n ofyniad, mae’n arfer dda dilyn Canllawiau ar Gosbau Panel Dyfarnu Cymru wrth ystyried cosb ac i’r cofnod o benderfyniad gadarnhau hynny. |

| Enw | Crynodeb o’r ffeithiau | Crynodeb o’r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | Ombwdsmon, ni wnaeth yr Ymatebydd ymateb.<br>Yn olaf, mewn ymateb i gwestiynau cyfweliad ysgrifenedig, darparwyd esboniad pellach gan yr Ymatebydd, yn datgan bod ei osodiadau wedi “cael eu newid yn rhyfedd ddigon” i statws cyhoeddus gan drydydd parti.<br>- I gloi, roedd y Panel yn ystyried bod yr Ymatebydd wedi osgoi yn fwriadol darparu gwybodaeth ac ymatebion llawn ac agored i geisiadau rhesymol gan Swyddog Ymchwilio’r Ombwdsmon wrth gwblhau’r ymchwiliad. | |
| Y Cynghorydd Kevin O’Neill<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br><br>APW/001/2020-021/CT | Yr honiadau oedd bod y Cynghorydd O’Neil (Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor ym mis Awst 2018 mewn perthynas â buddiant personol a rhagfarnllyd, ac yn y modd y bu iddo drin cyn Brif Weithredwr yr Awdurdod Perthnasol mewn cyfarfod ar 5 Mawrth 2019, yn groes i baragraffau 4(b), 6(1)(a), 11(1), 11(2)(a), 14(1)(a), 14(1)(c), 14(1)(d) a 14(1)(e) o’r Cod.<br><br>**Honiad 1**<br>A oedd yr Ymatebydd wedi methu â datgan diddordeb ar lafar ynghylch bodolaeth a natur buddiant personol ym musnes yr awdurdod yn ymwneud ag eiddo yn Luther Lane | Penderfynodd PDC y canlynol ynghylch yr honiadau:<br><br>**Honiad 1 -**<br>Roedd gan yr Ymatebydd fuddiant personol a rhagfarnllyd mewn mater a oedd yn effeithio ar St David’s, Luther Lane, Merthyr Tudful, eiddo cyfagos i’w cartref ac a brynwyd gan sefydliad preifat gyda’r bwriad o roi cartref yn y gymuned i blant o gefndiroedd cythryblus. Methodd yr Ymatebydd â datgan buddiant rhagfarnllyd. Canfu’r Tribiwnlys Achos yn unfrydol bod methiant i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol yn y cyswllt hwn.<br><br>**Honiad 2 -**<br>Ar sail y canfyddiadau ffeithiol a bod gan | Ystyriwyd torriadau o’r paragraffau canlynol o God Ymddygiad y Cyngor:<br>4(b) – *Rhaid i chi ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt*;<br>6(1)(a) – *Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy’n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod*;<br>11(1) – *Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i’r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau’r ystyriaeth, neu pan ddaw’r buddiant i’r amlwg*;<br>11(2)(a) – *Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a* |

| Enw | Crynodeb o’r ffeithiau | Crynodeb o’r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | mewn cyfarfod rhyngasiantaeth ar 15 Awst 2018, cyn neu ar gychwyn rhoi ystyriaeth i’r eiddo neu pan ddaeth y buddiant i’r amlwg, yn groes i baragraff 11(1) y Cod.<br><br>**Honiad 2**<br>A oedd gan yr Ymatebydd fuddiant rhagfarnllyd mewn perthynas â busnes yr awdurdod yn ymwneud â’r eiddo yn Luther Lane ac a oedd wedi torri’r Cod drwy beidio â gadael yr ystafell pan oedd yr eiddo’n cael ei ystyried yn ystod y cyfarfod rhyng-asiantaeth ar 15 Awst 2018.<br><br>**Honiad 3**<br>A oedd gan yr Ymatebydd fuddiant rhagfarnllyd mewn perthynas â busnes yr awdurdod yn ymwneud â’r eiddo yn Luther Lane ac a oedd o wedi torri’r Cod drwy iddo geisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw a’i fod wedi cyflwyno sylwadau ar lafar yn ystod y cyfarfod rhyng-asiantaeth ar 18 Awst 2018.<br><br>**Honiad 4**<br>Nid oedd e-bost yr Ymatebydd at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar 16 Awst 2018 yn cynnwys manylion am fuddiant personol yr Ymatebydd ym musnes yr awdurdod mewn perthynas â’r | yr Ymatebydd fuddiant rhagfarnllyd mewn perthynas â busnes yr awdurdod yn ymwneud â’r eiddo yn Luther Lane, canfu’r tribiwnlys yn unfrydol bod yr honiad wedi’i brofi a bod methiant i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr awdurdod. Mae’r tribiwnlys achos yn cytuno â dadl yr Ombwdsmon (fel y’i cyflwynwyd yn y papurau) na ddylai’r Ymatebydd fod wedi bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod ble’r oedd y buddiant rhagfarnllyd yn cael ei ystyried, gan nad oedd wedi derbyn caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau.<br><br>**Honiad 3 -**<br>Canfu’r Tribiwnlys Achos yn unfrydol bod yr honiad wedi’i brofi ac y bu methiant i gydymffurfio â’r Cod fel a ganlyn; Mae Paragraff 14 (1) (c) o’r Cod Ymddygiad yn datgan,  mewn perthynas â lle mae gan aelod fuddiant rhagfarnllyd mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo’r awdurdod ag ef, *“na ddylai Aelod geisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw”.* Drwy wneud y sylwadau a chymryd rhan yn y cyfarfod yn ymwneud ag eiddo a oedd ddrws nesaf i’w gartref yr oedd ganddo fuddiant rhagfarnllyd ynddo, ac fel Arweinydd y Cyngor, roedd y tribiwnlys achos yn fodlon bod yr Ymatebydd yn ceisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw.<br><br>**Honiad 4 -** | *wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud cynrychioliadau ysgrifenedig (p’un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig;*<br>14(1)(c) – *Yn amodol ar is-baragraffau (2), (2A) (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy’n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eich awdurdod, peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;*<br>14(1)(ch) - *Yn amodol ar is-baragraffau (2), (2A) (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy’n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eich awdurdod, peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig (p’un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) mewn perthynas â’r busnes hwnnw;*<br>a 14(1)(d) – *Yn amodol ar is-baragraffau (2), (2A) (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy’n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eich awdurdod, peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p’un ai’n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â’r busnes* |

| Enw | Crynodeb o’r ffeithiau | Crynodeb o’r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | eiddo yn Luther Lane, a bod yr e-bost yn ceisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw a’i fod wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig am y busnes hwnnw yr oedd ganddo fuddiant rhagfarnllyd ynddo, yn groes i’r Cod.<br><br>**Honiad 5**<br>A oedd gweithredoedd yr Ymatebydd wrth siarad yn y cyfarfod ar 15 Awst 2018 ac anfon gohebiaeth ysgrifenedig at swyddog ar ffurf e-bost at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar 16 Awst 2018, yn ceisio dylanwadu ar benderfyniad am y busnes yn ymwneud â’r eiddo yn Luther Lane yn groes i’r Cod, ac a ellid ystyried yn rhesymol bod ymddygiad o’r fath, pe bai’n cael ei brofi, yn dwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod, yn groes i’r Cod.<br><br>**Honiad 6**<br>A oedd ymddygiad yr Ymatebydd tuag at gyn Brif Weithredwr yr Awdurdod yn y cyfarfod ar 5 Mawrth 2019 yn amhriodol ac yn methu â dangos parch ac ystyriaeth iddo, yn groes i’r Cod. | Canfu’r Tribiwnlys Achos yn unfrydol bod methiant i gydymffurfio â  Chod Ymddygiad yr awdurdod perthnasol. Canfu’r Tribiwnlys Achos yn unfrydol fod gan yr Ymatebydd fuddiant rhagfarnllyd yn yr eiddo yn Luther Lane a’i fod wedi anfon e-bost at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar 16 Awst 2018 yn groes i baragraffau 14(1) (c) a (d) o’r Cod (ceisio dylanwadu ar benderfyniad a gwneud cynrychioliadau llafar mewn cysylltiad â busnes lle mae gan yr aelod fuddiant sy’n rhagfarnu).<br><br>**Honiad 5 -**<br>Canfu’r Tribiwnlys Achos yn unfrydol bod ymddygiad yr Ymatebydd wrth siarad yn y cyfarfod rhyng-asiantaeth ar 15 Awst 2018 ac anfon yr e-bost at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar 16 Awst 2018 mewn perthynas â busnes yr awdurdod yr oedd ganddo fuddiant rhagfarnllyd ynddo, yn groes i Baragraff 6(1)(a) y Cod. *“6.-(1) Rhaid i chi – (a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy’n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod”*<br><br>**Honiad 6 -**<br>Canfu’r tribiwnlys achos yn unfrydol bod ymddygiad yr Ymatebydd tuag at gyn Brif Weithredwr yr Awdurdod yn y cyfarfod ar 5 Mawrth 2019 wedi torri paragraff 4(b) o’r Cod, sy’n datgan bod rhaid i Aelod *“(b) ddangos parch at eraill ac ystyriaeth* | *hwnnw neu rhaid i chi roi’r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw’r buddiant sy’n rhagfarnu i’r amlwg*;<br><br>**Cosb:**<br><br>Rhoddodd y Tribiwnlys ystyriaeth i holl ffeithiau’r achos ac yn arbennig nifer a natur yr achosion o dorri’r cod, sylwadau’r Ombwdsmon a sylwadau lliniaru'r Ymatebydd. Fe wnaeth hefyd ystyried y canllaw ar gosbau a gyhoeddwyd gan y Llywydd o dan adran 75(10) Deddf Llywodraeth Leol 2000 (“y Canllaw”).<br><br>Penderfynodd y Tribiwnlys Achos, ar gyfer yr achosion o dorri’r Cod a brofwyd yn yr achos hwn, mai’r man cychwyn fyddai atal dros dro am gyfnod o naw mis. Fodd bynnag, ar ôl cymryd y ffactorau lliniarol a gwaethygol i ystyriaeth, ac yn arbennig tyst cymeriad rhagorol yr Ymatebydd, ei record hir o wasanaeth cyhoeddus, a’i ddiffyg profiad cymharol fel Cynghorydd ac Arweinydd, daeth y Tribiwnlys Achos i ganlyniad unfrydol i ostwng ycyfnod o atal dros dro. Cafodd yr Aelod ei atal dros dro am saith mis..<br><br>Yn ogystal fe wnaeth y Tribiwnlys Achos yr argymhelliad a ganlyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful:<br>Bod y Swyddog Monitro neu eu dirprwy yn darparu hyfforddiant pellach i’r Ymatebydd ar y Cod Ymddygiad, ystyr ‘buddiant rhagfarnllyd’ a sut y dylid ymateb i gyngor y |

| Enw | Crynodeb o'r ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | *ohonynt"* | Swyddog Monitro, a statws cyngor y Swyddog Monitro. Dylid darparu'r hyfforddiant o fewn un mis wedi i'r Ymatebydd ddychwelyd i'w rôl ar ôl i'w gyfnod atal ddod i ben.<br><br>**<u>Pwyntiau dysgu ar gyfer aelodau etholedig</u>**<br><br>• Ystyriodd y Tribiwnlys Achos Ganllaw'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad. Mae'r Canllaw hwn wedi cael ei ddiweddaru yn ddiweddar ac yn destun eitem ar wahan ar y rhaglen (eitem 11).<br><br>• Bydd mynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn cynorthwyo aelodau i wella eu dealltwriaeth a bydd yn ffactor lliniarol mewn unrhyw achos a ystyrir gan Banel Dyfarnu Cymru. Cynghorir Aelodau i gwblhau'r hyfforddiant ar-lein sydd ar gael ar y **ddolen hon**, oni bai eu bod wedi gwneud hynny'n barod.<br><br>• Cynghorir aelodau i ofyn am gyngor y Swyddog Monitro ynghylch diddordebau personol a rhagfarnol. Mae angen i aelodau ystyried y cyngor dderbynir a chael rheswm da pam nad ydynt yn ei ddilyn.<br><br>• Gall aelod sydd efo diddordeb fel yr un sydd wedi ei amlygu yn yr achos hwn barhau i gyfleu ei safbwynt/consyrn, ond mewn capasiti preifat ac nid yn eu |

| Enw | Crynodeb o’r ffeithiau | Crynodeb o’r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | | swyddogaeth fel aelod etholedig. Byddai hyn yn golygu defnyddio cyfeiriad ebost personol (dim @ynysmon.gov.uk); peidio defnyddio cyfarpar TG y Cyngor (defnyddio dyfais bersonol); defnyddio’r un sianelau mynediad sydd ar gael ar gyfer aelodau’r cyhoedd, tra’n sicrhau eu bod yn datgan y diddordeb ym mhob sgwrs/gohebiaeth, hyd yn oed pan fo hyny’n ymddangos yn ail-adroddus. Mae nodyn briffio ar weithredu hawliau fel unigolyn ar gael ar y **ddolen hon**.<br><br>**Pwyntiau dysgu ar gyfer y Pwyllgor Safonau**<br><br>Er nad yw’n ofyniad, mae’n arfer dda dilyn Canllawiau ar Gosbau Panel Dyfarnu Cymru wrth ystyried cosb ac i’r cofnod o benderfyniad gadarnhau hynny. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **16 Mehefin 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau gan y Cadeirydd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I ddarparu copi o'r Adroddiad Blynyddol i aelodau a gwybodaeth ar y gwaith i'w gyflawni ar gyfer 2021/2022.** |
| **AWDUR:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

**A CEFNDIR**

1 Mae gofyn i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ddarparu Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor.

2 Cafodd Adroddiad 2020/2021 y Pwyllgor Safonau felly ei gyflwyno gan Mr John R Jones i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Mai 2021.

3 Mae copi o'r Adroddiad i'w weld drwy ddilyn y ddolen hon.

4 Mae'r Adroddiad yn nodi'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i gyflawni yn ystod 2020/2021 ac mae'n cynnwys y rhaglen waith ar gyfer 2021/2022.

**B ARGYMHELLIAD**

1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **16 Mehefin 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad yn dilyn Adolygiad o Gofrestrau Diddordebau Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar y canfyddiadau yn ystod adolygiad o sampl o Gofrestrau Diddordebau'r Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol)**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752566** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1.1 Fel rhan o'i raglen waith ar gyfer 2020-2021, penderfynodd y Pwyllgor Safonau gynnal adolygiad o'r cofrestrau o ddiddordebau aelodau mewn sampl o'r cynghorau tref a chymuned, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod ymddygiad.

1.2 Yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2020, penderfynodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn penderfynu pa gynghorau tref a chymuned i'w hadolygu ar ôl ystyried swm y praesept a pha gynghorau a oedd wedi'u hadolygu'n flaenorol, wrth sicrhau na fyddai dau gyngor â'r un Clerc yn cael eu dewis.

1.3 Dewiswyd y pum cyngor yn ystod cyfarfod ar 27 Ionawr 2021.

1.4 Daethpwyd i gysylltiad â Chlercod y cynghorau a ddewiswyd am y tro cyntaf trwy alwadau ffôn gan Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor ar y 3ydd a'r 4ydd o Chwefror 2021.

1.5 Anfonwyd llythyrau o eglurhad wedyn i Glercod a Chadeiryddion y pum cyngor ar 10 Chwefror 2021.

1.6 Cynhaliodd y Pwyllgor Safonau gyfarfod anffurfiol ar 10 Mawrth 2021 i drafod y broses ar gyfer cynnal yr adolygiadau yn y pum cyngor. Daeth y Pwyllgor i gytundeb o ran defnyddio'r Nodyn Methodoleg a'i gynnwys; byddai hwn yn cael ei ddilyn gan bob pâr a oedd yn cynnal yr adolygiadau er mwyn sicrhau cysondeb o ran yr ymagwedd ym mhob cyfarfod a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad. Cytunwyd hefyd y byddai llythyrau personol yn cael eu hanfon at y cynghorau a adolygwyd i

CC-019486-MY-645952

ddarparu adborth penodol ar gyfer eu cyngor; ni fyddai'r sylwadau hyn yn cael eu gwneud yn gyhoeddus. I gloi, byddai adroddiad yn cael ei anfon at bob cyngor tref a chymuned fyddai'n rhoi manylion y canfyddiadau cyffredinol a gafwyd mewn ymgais i gynorthwyo pob cyngor trwy rannu arferion da a nodwyd a chydnabod materion y mae angen mynd i'r afael â hwy'n gyffredinol.

1.7 Cynhaliwyd yr adolygiadau yn y pum cyngor a ddewiswyd yn ystod mis Mawrth, Ebrill a Mai 2021. Fe'u cynhaliwyd gan ddau aelod o'r Pwyllgor Safonau, sef y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd ac un aelod arall.

1.8 Ystyriwyd y bu'r adolygiad yn ymarfer buddiol. Rhoddodd ddarlun i aelodau'r Pwyllgor Safonau o sut y mae cynghorau tref a chymuned yn cydymffurfio â gofynion y cod ymddygiad, ac roedd sawl Clerc wedi dweud bod y cyfarfod yn adeiladol ac yn fuddiol at y dyfodol.

## 2. LLYTHYRAU PERSONOL

2.1 Paratowyd llythyr personol ar gyfer pob cyngor yn amodol ar yr adolygiad, a oedd yn darparu cyngor penodol i'r cyngor hwnnw. Mae'r llythyrau hyn yn bersonol i bob cyngor (y Clerc a'r aelodau) ac ni chawsant eu cylchredeg neu eu rhannu ag eraill.

## 3. CANFYDDIADAU CYFFREDINOL O'R ADOLYGIAD

3.1 Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor Safonau'n fodlon â'r canfyddiadau, gan iddo weld sawl enghraifft o arferion da. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd cyffredin a oedd yn achosi pryder hefyd, a gobeithir bod canfod y rhain a thrafod sut i'w gwella/gweithredu yn mynd i gynorthwyo'r Clercod i gefnogi eu cynghorau.

3.2 Paratowyd adroddiad sy'n rhoi manylion y canfyddiadau cyffredinol, ac mae copi ynghlwm fel **Atodiad 1**.

## 4. CADARNHAU DOSBARTHU'R ADRODDIAD GAN GLERCOD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

4.1 Wrth anfon yr adroddiad cyffredinol i glercod y cynghorau tref a chymuned y bwriad yw dilyn yr un drefn ag yn 2017 a 2019 pan wnaed y cais am:

(a) Gynnwys yr adroddiad cyffredinol ar y rhaglen ar gyfer cyfarfod o'r cyngor tref/cymuned i sicrhau bod ei gynnwys yn dod i sylw'r aelodau;

ynghyd â

(b) Chopi o gofnodion y cyfarfod perthnasol, sy'n cadarnhau bod yr adroddiad wedi'i drafod, i'w anfon ymlaen i sylw'r Pwyllgor Safonau.

Bwriedir anfon yr adroddiad cyffredinol at y cynghorau tref a chymuned yn fuan ar ôl y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Safonau o dan lythyr eglurhaol, y cynhwysir drafft ohono fel **Atodiad 2**.

4.2 Ni fydd cais gan y Pwyllgor Safonau I'r llythyrau personol (a drafodir ym mharagraff 2 uchod) gael eu cyhoeddi gan y cynghorau. Penderfyniad ar gyfer pob cyngor adolygwyd fydd hyn.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i’r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys yr adroddiad yn **Atodiad 1.**

5.2 Gofynnir i’r Pwyllgor gadarnhau y caiff yr adroddiad cyffredinol yn **Atodiad 1** ei anfon at bob cyngor tref a chymuned, o dan lythyr eglurhaol a gynhwysir fel **Atodiad 2**, gyda chais i drafod yr adroddiad mewn cyfarfod o’r cynghorau tref/cymuned ynghyd ag anfon copi o’r Cofnodion ymlaen at y Pwyllgor Safonau; a

5.3 Bod adroddiad pellach yn cael ei lunio, yn barod ar gyfer y cyfarfod nesaf o’r Pwyllgor Safonau, sy’n rhoi manylion yr ymatebion a dderbyniwyd i’r cais yn 4.1 uchod.

# Adroddiad yn dilyn adolygiad y Pwyllgor safonau o Gofrestrau Diddordebau Cynghorau Tref a Chymuned – Mehefin 2021

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

***Hoffai'r Pwyllgor Safonau gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r clercod, ac aelodau'r pum Cyngor Tref a Chymuned a adolygwyd am eu hamser a'u cydweithrediad.***

*Ystyriwyd y bu'r adolygiadau'n ymarfer buddiol; yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor Safonau'n fodlon â'r canfyddiadau, gan iddo weld sawl enghraifft o arferion da. Fodd bynnag, nodwyd meysydd cyffredin a oedd yn achosi pryder hefyd ac mae'r rhain angen sylw. Mae'r Adroddiad hwn yn anelu at gynnwys y ddwy elfen hon, fel ei fod yn arweiniad defnyddiol i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ar yr hyn sydd angen ei wneud.*

**Y dogfennau a geisiwyd:**
Ym mhob Cyngor gofynnwyd am y dogfennau a ganlyn, a oedd yn dyddio'n ôl i fis Mai 2017 (h.y. dyddiad yr etholiad diwethaf) ar gyfer yr adolygiad:

- Cofrestr o Ddiddordebau Personol – sef y Gofrestr o Ddatganiadau a Wneir Mewn Cyfarfodydd a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch
- Copi o'r ffurflen ddatganiadau a ddefnyddir gan aelodau i ddatgan diddordebau personol/rhagfarnus mewn cyfarfodydd
- Cod Ymddygiad y Cyngor
- Rhestr o enwau'r holl Gynghorwyr [a manylion unrhyw sedd wag] ynghyd â chadarnhad bod pob aelod cyfredol wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad
- Cofnodion hyfforddiant yr aelodau
- Gwybodaeth am hyfforddiant y Clerc
- Protocol Datrys Anghydfodau Lleol y Cyngor ynghyd â gwybodaeth am ei fabwysiadu
- Cyfeiriad gwefan
- Copïau o Raglenni a Chofnodion cyfarfodydd y Cyngor ac is-bwyllgorau
- Manylion unrhyw ganiatâd arbennig a roddwyd i Gynghorwyr.

**Cod Ymddygiad:**
Daeth y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 i rym ar 1af Ebrill 2016. Roedd yn ofynnol i bob Cyngor Tref a Chymuned fabwysiadu'r Cod diwygiedig hwn. Ar ôl ei fabwysiadu, mae'n rhaid cyhoeddi hysbyseb mewn un neu ragor o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal leol ac anfon copi o'r Cod at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. **Gellir gweld copi o'r Cod Ymddygiad Statudol** <u>yma</u> **(Atodiad 1)**.
Roedd y Pwyllgor Safonau'n falch o nodi bod y mwyafrif o'r Cynghorau a adolygwyd wedi mabwysiadu'r Cod yn llawn.

➢ Gofynnir i **bob** Cyngor sicrhau ei fod yn dwyn sylw ei aelodau at y Cod diweddaraf a'u bod yn ei fabwysiadu os heb wneud hynny'n barod.

**Rhaglen a Chofnodion:**
Nid oes fformat penodol ar gyfer Rhaglenni a Chofnodion; fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Safonau yn ystyried ei bod yn <u>arfer da cynnwys 'Datganiadau o Ddiddordeb' fel eitem sefydlog ar Raglen pob un o gyfarfodydd y Cyngor</u>, fel modd o atgoffa aelodau. Teimlwyd yn gyffredinol y dylid cynnwys mwy o wybodaeth yn y Cofnodion o dan yr eitem 'Datganiadau o Ddiddordeb' h.y. (a) enw'r aelod sy'n gwneud y datganiad llafar, (b) yr eitem y mae'r datganiad yn ymwneud â hi, a (c ) a oedd y datganiad yn ddiddordeb personol ynteu'n ddiddordeb sy'n rhagfarnu. Ar ben hynny, o dan yr eitem o fusnes ei hun, byddai'n arfer da i'r Cofnodion gadarnhau (a) a wnaed datganiad o ddiddordeb, a chan bwy, (b) a yw'r diddordeb yn un personol ynteu'n un sy'n rhagfarnu, (c) manylion y diddordeb personol / diddordeb sy'n rhagfarnu, a (ch) yn achos diddordeb sy'n rhagfarnu, cadarnhad bod yr aelod wedi gadael yr ystafell gyfarfod. Mae cynnwys gwybodaeth o'r fath yn cynorthwyo'r cyhoedd i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn dryloyw ac er budd y cyhoedd. Gallai fod yn arfer da hefyd, pan fo datganiad llafar yn ymwneud â diddordeb y mae'r Aelod wedi'i gofrestru'n barod (h.y. wedi'i ddatgan ar lafar am y tro cyntaf a'i gadarnhau yn ysgrifenedig), i'r Cofnodion gadarnhau'r manylion o ran pryd y cofrestrwyd y diddordeb gan yr Aelod – byddai hyn yn sicrhau tryloywder ar gyfer y cyhoedd pe byddent yn cwestiynu hynny.

**Ymrwymo i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad:**
Ar ddechrau pob cyfnod yn y swydd, mae'n ofynnol i bob aelod lofnodi ymrwymiad newydd i lynu wrth y Cod. Disgwyliwyd felly y byddai yna ffurflen ar gyfer pob Cynghorydd yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017, <u>p'un a oedd yr aelod wedi'i ailethol ai peidio</u> ac, yn wir, p'un a gynhaliwyd etholiad ai peidio ar gyfer y Cyngor hwnnw; neu pryd y cafodd yr aelod ei gyfethol. Tra bo hyn wed'i wneud ar gyfer mwyafrif helaeth yr aelodau yn y Cynghorau a adolygwyd, roedd rhai ar goll ac eraill wedi'u dyddio cyn Mai 2017. Roedd y Pwyllgor Safonau'n falch, lle gwelwyd fod y ffurflenni ymrwymo wedi'u cwblhau, eu bod wedi'u llofnodi ym mhresenoldeb tyst (manylir ar statws y tyst yn adran 83 (3) Deddf Llywodraeth Leol 1972); [y clerc yw'r tyst fel arfer, yn rhinwedd ei swydd fel swyddog priodol y Cyngor, ac mae'r drefn hon yn cydymffurfio].

➢ Dylai Aelodau wirio a ydynt wedi arwyddo ymrwymiad i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, ym mhresenoldeb y Clerc, ers Mai 2017.
➢ Atgoffir Cynghorau bod rhaid i Gynghorwyr <u>newydd a rhai sy'n dychwelyd</u> arwyddo ymrwymiad yn dilyn etholiad Mai 2022.

**Fforwm Clercod:**
Mae sawl Clerc wedi awgrymu y byddant yn croesawu "grŵp cymorth i gymheiriaid" a….
***Mae rhagor o fanylion yn cael eu casglu ynghylch Fforwm Clercod - bydd cyfeiriad ato yma***

**Cofrestr Diddordebau Personol (sy'n cael eu datgan mewn cyfarfodydd):**

**→Fformat y Gofrestr:**

- Pan gynhaliwyd yr adolygiad blaenorol, roedd gan y mwyafrif o'r Cynghorau gofrestrau a oedd yn cynnwys (a) y Cofnodion ar gyfer y cyfarfod perthnasol (yn cadarnhau'r datganiad o ddiddordeb a wnaed ar lafar) a'r ffurflenni Datgan Diddordeb a gwblhawyd gan bob aelod yn dilyn datganiad llafar o ddiddordebau personol a/neu ddiddordebau sy'n rhagfarnu am y tro cyntaf yn ystod y cyfarfod. Ystyriwyd fod hwn yn fformat boddhaol. Yn ystod yr adolygiad hwn, roedd gan y mwyafrif o'r Cynghorau Gofrestrau ar ffurf Tabl, lle bydd y Clerc yn cynnwys y wybodaeth benodol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd. Nid oes unrhyw fformat penodol ar gyfer y Gofrestr, ond os dibynnir ar Dabl, rhaid cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn y Tabl crynhoi.
- Nodwyd bod nifer o Gynghorau Tref a Chymuned yn mynd tu hwnt i'r gofyniad yn y Cod i gadarnhau datganiad llafar pan wneir ef am y tro cyntaf trwy gadarnhau pob datganiad llafar gyda chadarnhad ysgrifenedig (o ganlyniad, gellid cael sawl ffurflen ddatganiad gan yr un aelod mewn perthynas â'r un mater mewn sawl cyfarfod gwahanol). Ymddengys fod hyn yn arfer dda ac yn fformat haws i'r cyhoedd allu gweld y ffurflenni. Serch hyn, nid yw'n ofyniad o dan y Cod Ymddygiad.
- Nid oedd unrhyw enghreifftiau o gadarnhad ysgrifenedig gan Aelodau fod manylion y diddordebau hynny sydd wedi'u datgan yn eu Cofrestr wedi newid. Atgoffir Aelodau o'u dyletswydd i gadarnhau unrhyw newidiadau i ddiddordebau personol/diddordebau sy'n rhagfarnu ac sydd wedi'u cofrestru o fewn 28 diwrnod i bryd y digwyddodd y newid.
- Atgoffir aelodau hefyd y bydd diddordeb personol/diddordeb sy'n rhagfarnu ond yn cael ei weld fel un a ddatgelwyd yn flaenorol os yw hysbysiad ysgrifenedig wedi'i ddarparu ers y dyddiad diwethaf pan gafodd yr unigolyn ei ethol, ei benodi neu ei enwebu fel aelod o'r Cyngor. Dylai aelodau gadw hyn mewn cof yn enwedig yn dilyn etholiad Mai 2022.

**→Cyhoeddi:**

Rhaid cyhoeddi'r Gofrestr Diddordeb ar wefan y Cyngor. Roedd y Pwyllgor Safonau'n falch o nodi bod pob Cyngor a adolygwyd yn gwneud hyn; mae hyn yn welliant ers Adolygiadau 2016 ac 2018.

**→Ffurflen cadarnhau datganiadau o ddiddordeb a wnaed mewn cyfarfodydd:**

Nid oes un fformat penodol ar gyfer y Ffurflen Datgan Diddordeb i'w ddefnyddio er mwyn cadarnhau datganiad o ddiddordeb personol a/neu ddiddordeb sy'n rhagfarnu a wnaed ar lafar mewn cyfarfod. Roedd y mwyafrif o'r 'Ffurflenni Datganiad' a adolygwyd gan y Pwyllgor Safonau yn dilyn dogfen safonol CSYM ac roeddynt yn foddhaol yn nhermau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan yr Aelodau. **Gellir gweld copi o Ffurflen CSYM yma.**
Ni ddarparwyd copïau o'r ffurflenni a oedd wedi'u cwblhau i'r Pwyllgor Safonau mewn sawl un o'r Cynghorau a adolygwyd. Felly bu rhaid i'r Pwyllgor ddibynnu ar y wybodaeth a gynhwyswyd yn y gofrestr a gyflwynwyd ar ffurf Tabl, ac nid oedd hwn bob amser yn darparu darlun llawn.
Ar y sail hon, byddai'r Pwyllgor yn awgrymu cyhoeddi'r Ffurflenni Datganiad fel eu bod yn ffurfio rhan o'r Gofrestr trwy eistedd y tu ôl i'r Tabl.
Atgoffir Aelodau i ateb yn llawn bob cwestiwn perthnasol ar y Ffurflen Ddatganiad.

**Diddordebau Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu:**

Ymddengys nad yw Aelodau bob amser yn deall y gofyniad i ddatgan diddordebau personol a / neu ddiddordebau sy'n rhagfarnu pan fyddant yn codi, neu beth sy'n berthnasol a phryd. Atgoffir Aelodau:

- Diddordeb personol yw un o'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr benodol yn y Cod Ymddygiad;
- Diddordeb sy'n rhagfarnu yw diddordeb personol y byddai unigolyn gwrthrychol yn ystyried sydd mor arwyddocaol nes ei fod yn debygol o effeithio'n andwyol ar allu aelod i wneud penderfyniad er budd y cyhoedd;
- Mae'r gwahaniaeth rhyngddynt yn bwysig oherwydd bod gan aelodau hawl i gymryd rhan pan fydd ganddynt ddiddordeb personol, ond nid pan fydd ganddynt ddiddordeb personol sydd hefyd yn un sy'n rhagfarnu. Os yw'r diddordeb yn un sy'n rhagfarnu, mae'n rhaid i aelodau hefyd adael y cyfarfod yn gorfforol / rhithwir tra bod yr eitem yn cael ei thrafod.

Dylai Aelodau sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o dan y Cod Ymddygiad, ac os nad ydynt, dylent drefnu hyfforddiant priodol.
**Gellir gweld Nodyn Briffio ar ddatgan diddordebau personol a rhagfarnol gan Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned yma.**
Os oes gan Aelodau unrhyw gwestiynau penodol, dylent ofyn am gyngor gan eu Clerc neu drwy gysylltu â'r Swyddog Monitro yn CSYM lbxcs@ynysmon.gov.uk

**Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch:**

Tra nad oes unrhyw ofyniad i Gynghorau Tref a Chymuned gael Cofrestr Sefydlog (h.y. ar gyfer cofrestru rhai diddordebau ymlaen llaw), mae eich Cynghorau'n gorfod cynnal y ddwy Gofrestr arall a fynnir o dan y Cod. Felly mae gofyniad i Aelodau gofrestru unrhyw roddion a lletygarwch a dderbyniwyd ganddynt yn eu rôl fel Cynghorwyr, uwchlaw'r trothwy ariannol sydd i'w gytuno gan bob Cyngor. Mae'r maes hwn yn gofyn am sylw gan nad oedd gan fwyafrif y Cynghorau a adolygwyd Gofrestr ac nid oeddynt yn ymwybodol o'r gofyniad hwn.

- Dylai bod gan Gynghorau Gofrestr hyd yn oed os yw'n cadarnhau na wnaed unrhyw ddatganiadau.
- Rhaid i Aelodau sylweddoli fod gofyniad i gofrestru derbyniadau o'r fath, ac mae angen i bob Cyngor gytuno ar derfyn o ran y bydd rhaid cofrestru unrhyw roddion a lletygarwch y tu hwnt iddo.

**Hyfforddiant:**

**→Hyfforddiant i Glercod:**

Gall clerc sydd wedi ei hyfforddi'n briodol ac sydd â'r adnoddau priodol gynorthwyo'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, a bydd mewn sefyllfa well i gynghori aelodau, y tu mewn a'r tu allan i gyfarfodydd. Atgoffir aelodau mai'r clercod yw'r swyddogion priodol o fewn y Cynghorau ac y dylai'r aelodau roi sylw dyledus i'r cyngor a roddir gan y clerc.

**→ Hyfforddiant i Aelodau:**

Ymddengys fod y clercod yn rhoi gwybod i aelodau am hyfforddiant, ond, yn gyffredinol, mae'r aelodau'n methu/yn anfodlon mynychu'r hyfforddiant. Bydd mynychu hyfforddiant yn cynorthwyo aelodau gyda materion fel y rheini o ran materion personol / sy'n rhagfarnu a byddai'r Pwyllgor Safonau'n annog Aelodau i ystyried eu hanghenion o ran hyfforddiant.

Hysbysir y Cynghorau, o Fai 2022, bydd yn ofynnol i Gynghorau Tref a Chymuned lunio Cynllun Hyfforddiant sy'n nodi eu cynigion o ran y ddarpariaeth o hyfforddiant i Gynghorwyr a staff (adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

Atgoffir Cynghorau y gellid cynnwys swm ar gyfer hyfforddiant (i Glercod ac Aelodau) wrth osod eu praesept. Roedd gan y Cynghorau a adolygwyd fel rhan o'r ymarfer hwn gyllideb hyfforddiant, ond ymddengys nad oedd bob amser yn cael ei ddefnyddio; byddai'r Pwyllgor Safonau'n annog Cynghorau i ddefnyddio'r arian sydd ar gael ar gyfer unrhyw anghenion hyfforddiant a ganfuwyd.

**Caniatâd Arbennig:**

Ymddengys nad yw llawer o aelodau Cyngor yn gwneud cais am ganiatâd arbennig.

Mae caniatâd arbennig ar gael i Aelodau pan fo ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu, ond oherwydd un o'r seiliau statudol, dylai bod modd i'r Aelod gymryd rhan yn y drafodaeth, er y diddordeb sy'n rhagfarnu (e.e. oherwydd arbenigedd yr Aelod, neu fod gan fwy na hanner aelodau'r Cyngor ddiddordeb sy'n rhagfarnu). **Mae Nodyn Briffio ar Ganiatâd Arbennig, sy'n ymgorffori'r Ffurflen Gais ei hun, ar gael yma.**

**Gwefannau:**

Ers mis Mai 2015, mae'n ofyniad statudol i Gynghorau Tref a Chymuned fod â gwefan a chyhoeddi gwybodaeth benodol arni. Cyhoeddwyd Canllawiau Statudol i gynorthwyo Cynghorau i gyflawni'r ddyletswydd hon ac **mae copi pellach o'r Canllawiau hyn ar gael yma.**

Mae'r Pwyllgor Safonau'n croesawu'r gwaith a wnaed mewn perthynas â chreu a chyhoeddi gwybodaeth ar wefannau, ac yn nodi bod hyn yn welliant ers yr Adolygiad diwethaf yn 2018.

- ➢ Atgoffir y Cynghorau o'r gofynion sylfaenol a nodir yn y canllawiau statudol, ac fe'u hanogir i gydymffurfio er mwyn bod yn weladwy i'r cyhoedd.

**Cyfarfodydd rhithwir:**

Cafodd pob Cyngor a adolygwyd eu canmol am eu hymagwedd o ran sicrhau bod cyfarfodydd y Cynghorau'n cael eu cynnal yn rhithwir yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda sawl Cyngor yn caniatáu i'r cyhoedd gael mynediad i'r cyfarfodydd rhithwir hefyd.

Canmolwyd y Cynghorau hefyd am eu haddasiadau o ran sicrhau'r gofyniad o dan y Cod Ymddygiad bod rhaid i aelod sy'n datgan diddordeb sy'n rhagfarnu adael cyfarfod. Roedd y Cynghorau'n adrodd eu bod (a) wedi symud eitemau'r Rhaglen er mwyn ystyried yr eitem dan sylw ar y diwedd [fel bod y Cynghorydd sydd â'r diddordeb sy'n rhagfarnu yn gallu gadael y cyfarfod] neu (b) defnyddiwyd "ystafell ddisgwyl Zoom" [a bod Clercod wedi rhoi'r Cynghorydd a chanddo ddiddordeb sy'n rhagfarnu yn yr ystafell rithwir hon hyd nes bod yr eitem wedi'i dod i ben]. Gydag adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi bod rhaid i Gynghorau Cymuned barhau i ganiatáu mynediad o bell i gyfarfodydd yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor Safonau'n annog pob Cyngor i fabwysiadu trefniadau tebyg ar gyfer delio â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Protocol Datrysiad Lleol:**

O'r pum Cyngor a adolygwyd, roedd pedwar wedi mabwysiadu model Protocol Datrysiad Lleol (gyda thri ohonynt yn defnyddio'r model sydd wedi'i baratoi gan Un Llais Cymru). Mae'r Pwyllgor Safonau yn croesawu'r ffaith fod y Cynghorau'n mabwysiadu'r fath Brotocol, gan ei fod yn arfer da, er nad yw'n fandadol. Roedd y Pwyllgor Safonau hefyd yn croesawu'r ffaith nad oedd yr un o'r Cynghorau sydd wedi mabwysiadu'r Protocol wedi cael rheswm i'w ddefnyddio ers ei fabwysiadu.

- ➢ Lle bo angen i Glercod weithredu fel cyfryngwyr o dan y broses hon, mae' Pwyllgor Safonau'n eu hannog i gwblhau'r hyfforddiant perthnasol.

**ARFERION DA A GANFUWYD YN YR ADOLYGIADAU:**

(1) Gwelliant o ran faint o wybodaeth, gan gynnwys y Gofrestr o Ddiddordebau Personol, a gyhoeddwyd ar wefannau'r Cynghorau ers yr adolygiad diwethaf;
(2) Parodrwydd y Cynghorau i fabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol;
(3) Mae Cynghorau wedi addasu'n dda wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod yn y cyfarfodydd rhithwir;
(4) Cynnwys "Datganiadau o Ddiddordeb" fel eitem sefydlog ar Raglen bob cyfarfod o'r Cyngor;
(5) Fformat y 'Ffurflenni Datganiad' a ddefnyddir i ddatgan diddordebau personol/sy'n rhagfarnu mewn cyfarfodydd ffurfiol.

**MEYSYDD I'W GWELLA:**

(1) Angen sicrhau cofnodion digonol sy'n dangos bod aelodau yn llofnodi ymrwymiad i lynu wrth y Cod Ymddygiad (fersiwn 2016) ar ddechrau pob tymor newydd yn y swydd;
(2) Fformat y Gofrestr o Ddiddordebau Personol Aelodau er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys gwybodaeth ddigonol a'i bod yn eglur i'r cyhoedd;
(3) Mae angen mynd i'r afael â diffyg dealltwriaeth posib rhai aelodau ynghylch y gwahaniaeth rhwng diddordebau personol a/neu rhagfarnol;
(4) Rhaid i gynghorau gynnal Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch ac i aelodau wybod y terfyn ariannol a gytunwyd gan eu cyngor
(5) Presennoldeb, a chofnodi, hyfforddiant aelodau a swyddogion, yn enwedig o ystyried y gofyniad i ddatblygu Cynllun Hyfforddiant o 2022;
(6) Sicrhau fod rhagor o fanylion am y diddordebau a ddatganwyd yn cael eu cynnwys ar Raglenni/Cofnodion holl gyfarfodydd y Cynghorau.

Annwyl Glercod

**Adroddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn ar Gofrestrau Diddordebau Cynghorau Tref a Chymuned - Paratowyd yr adroddiad ym Mehefin 2021**

Fel rhan o'i raglen waith ar gyfer 2020-2021, penderfynodd y Pwyllgor Safonau gynnal adolygiad o gofrestrau o ddiddordebau personol aelodau mewn sampl o'r cynghorau tref a chymuned, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod ymddygiad. Cynhaliwyd yr adolygiadau ym mis Mawrth, Ebrill a Mai 2021.

Hoffai'r Pwyllgor Safonau fynegi ei ddiolch diffuant i'r clercod, ynghyd ag aelodau'r pum Cyngor Tref a Chymuned a adolygwyd, am eu hamser a'u cydweithrediad. O safbwynt y Pwyllgor, ystyriwyd y bu'r adolygiadau'n ymarfer buddiol; mynegodd y Clercod hefyd y bu'r drafodaeth o fudd iddynt.

Gweler ynghlwm gopi o Adroddiad a baratowyd gan y Pwyllgor Safonau er mwyn darparu trosolwg cyffredinol o ganfyddiadau'r adolygiad diweddar. Nid oes unrhyw gyngor unigol yn cael ei adnabod yn yr Adroddiad. Mae'r Pwyllgor Safonau'n gobeithio y bydd cynnwys yr Adroddiad yn cynorthwyo cynghorau tref a chymuned yn gyffredinol trwy ddarparu manylion o ran (a) arferion da, ynghyd â (b) meysydd sy'n gofyn am sylw pellach. Hyderwn y gall fod yn ganllaw defnyddiol i'r hyn sydd angen ei wneud at y dyfodol.

**Gofynnir i Glercod ddod â chynnwys yr adroddiad hwn i sylw eu holl aelodau trwy ei gynnwys fel eitem ar raglen cyfarfod nesaf eu cyngor, ac i anfon copi o gofnodion y cyfarfod hwnnw at y Pwyllgor Safonau trwy e-bost at mwjcs@ynysmon.gov.uk**

Pe bai gan aelodau neu Glercod unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r adroddiad, cysylltwch â'r Swyddog Monitro yng Nghyngor Sir Ynys Môn (Lynn Ball, 01248 752586 / lbxcs@ynysmon.gov.uk).

Yn gywir

John R Jones
Cadeirydd – Pwyllgor Safonau

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **16 Mehefin 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cod Ymddygiad Diwygiedig ar gyfer aelodau (a) cynghorau sir a (b) cynghorau tref a chymuned a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I ddarparu copïau o'r Canllawiau diwygiedig** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) wedi cyhoeddi canllawiau ar y Cod Ymddygiad ar gyfer (a) cynghorau sir a (b) cynghorau tref a chymuned; mae'r rhain ar gael ar wefan yr Ombwdsmon ac maent wedi eu rhannu ag aelodau yn flaenorol, pan gawsant eu cyhoeddi yn wreiddiol.

1.2 Mae'r canllawiau wedi eu paratoi gan yr Ombwdsmon er mwyn cynorthwyo unigolion i ddeall eu goblygiadau o dan y Cod Ymddygiad. Mae'n darparu mwy o fanylion na Model y Cod Ymddygiad ac yn darparu enghreifftiau o achosion blaenorol. Mae hefyd yn cynnwys manylion am y prawf dau gam a ystyrir gan yr Ombwdsmon wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i achos o dorri'r Cod.

## 2. YMGYNGHORIAD AR Y CANLLAWIAU DIWYGIEDIG

2.1 Ddechrau 2021, bu'r Ombwdsmon gynnal ymarfer ymgynghori mewn perthynas â'r Canllawiau diwygiedig.

2.2 Wrth gymharu'r Canllawiau blaenorol â'r Canllawiau diwygiedig, does dim gwahaniaethau sylweddol; mae'n ymddangos fod y newidiadau yn ymwneud â diweddaru enghreifftiau a sicrhau eglurder.

2.3 Bu’r Pwyllgor Safonau gyfarfod yn anffurfiol er mwyn trafod y Canllawiau diwygiedig ar 10 Mawrth 2021. Cafwyd awgrymiadau a chafodd ymateb y Pwyllgor ei roi at ei gilydd, ar ffurf gohebiaeth, drwy gytundeb â’r Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn.

2.4 Ar 18 Mawrth 2021, bu Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau fynychu cyfarfod o Arweinyddion Grwpiau’r Cyngor hwn a chyflwynwyd copi o’r ymatebion arfaethedig i’r ymarfer ymgynghori. Roedd yr Arweinyddion Grwpiau yn cytuno’n unfrydol â’r ohebiaeth a awgrymwyd.

2.5 Anfonwyd y llythyr i swyddfa’r Ombwdsmon ar 19 Mawrth [cyn y dyddiad cau o 21 Mawrth, 2021].

2.6 Ni chafwyd ymateb uniongyrchol i’r ohebiaeth.

2.7 2.7 Mae’r Ombwdsmon wedi creu Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad ynghylch y Canllawiau Diwygiedig ar God Ymddygiad Aelodau Llywodraeth Leol, dyddiedig Mai 2021, sy’n darparu crynodeb o’r ymatebion dderbyniwyd ac ymateb OGCC i’r sylwadau hynny. Mae’r Adroddiad Cryno ar gael ar y ddolen hon.

## 1. CANLLAWIAU NEWYDD

1.1 Mae’r Canllawiau newydd bellach wedi eu cyhoeddi ar wefan yr Ombwdsmon.

1.2 Mae canllawiau ar gyfer cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a phanelau heddlu a throseddu i’w gweld yma.

1.3 Mae’r Canllawiau ar gyfer cynghorau tref a chymuned i’w gweld yma.

1.4 Mae’r rhan fwyaf o gynnwys y ddau set o Ganllawiau (h.y. y rhai ar gyfer aelodau’r Cyngor Sir a’r rhai ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned) yr un fath. Mae hyn yn rhesymol o ystyried fod y Cod yr un peth ar gyfer y ddau grŵp. Fodd bynnag, y gwahaniaeth mwyaf yw’r enghreifftiau sy’n cael eu cynnwys; mae’r canllawiau yn cynnwys enghreifftiau gwahanol, yn ddibynnol ar y gynulleidfa darged.

## 2. ARGYMHELLION

2.1 Gofynnir i’r Pwyllgor Safonau:

2.1.1 ystyried y Canllawiau ar y dolenni uchod;

2.1.2 cytuno y dylid tynnu sylw Aelodau’r Cyngor hwn a’r Cynghorau Tref a Chymuned at y Canllawiau newydd perthnasol yn y Cylchlythyr nesaf; a

2.1.3 cytuno bod y Nodyn Briffio sy’n cael ei baratoi gan y Pwyllgor Safonau ar ddiddordebau personol a rhai sy’n rhagfarnu yn cael ei ddiweddaru fel ei fod yn cyfeirio at Ganllawiau newydd yr Ombwdsmon.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **16 Mehefin 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Ymatebion gan y Cynghorau Tref a Chymuned ynghylch Newyddlen y Pwyllgor Safonau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor yn dilyn y trafodaethau yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020, penderfynwyd y dylid adrodd ar waith a gweithgareddau diweddar y Pwyllgor i'r Cynghorau Tref a Chymuned, ac aelodau'r Cyngor hwn, ar ffurf Newyddlenni (yn hytrach na gohebiaeth hirfaith). Mae'r Newyddlen yn grynodeb yn unig a cheir mwy o wybodaeth drwy'r dolenni.

1.2 Roedd anfon Newyddlenni fel hyn yn syniad newydd gan y Pwyllgor; a'r gobaith oedd byddai'n ffordd hwylus o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth efo Cynghorau Tref a Chymuned. Y bwriad ydi anfon Newyddlenni yn dilyn cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor o hyn ymlaen.

1.3 Gwnaethpwyd cais hefyd fod y Cynghorau Tref a Chymuned, ar ôl derbyn y Newyddlenni, yn cadarnahu (drwy ebost) fod y Newyddlenni wedi dod i sylw aelodau'r Cyngor drwy ei gynnwys fel eitem ar Raglen cyfarfod nesa'r Cyngor.

1.4 Anfonwyd y Newyddlen i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ar 4 Mawrth 2021. Yn yr ohebiaeth honno, gofynnwyd wrth y Clercod am gysylltu efo'r Cyngor gyda chopi o Raglen / Cofnodion fyddai'n cadarnhau fod y Newyddlen wedi ei thrafod. Cadarnhaodd yr ohebiaeth y byddai adroddiad ar yr ymatebion gan y Cynghorau Tref a Chymuned yn dod gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

## 2. YMATEBION A DDERBYNIWYD I'R CAIS

2.1 Mae copi o'r ebost anfonwyd at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned ar 4 Mawrth 2021 a'r Newyddlen atodol ynghlwm yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn.

2.2 Gweler yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned yn **Atodiad 2** yr adroddiad hwn. 9 yn unig o'r 40 Cyngor Tref a Chymuned sydd wedi ymateb.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau:

3.1.1 nodi'r wybodaeth mewn perthynas â'r Cynghorau Tref a Chymuned yn **Atodiad 2**; a

3.1.2 phenderfynu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r Cynghorau Tref/Cymuned hynny nad ydynt wedi ymateb.

**<u>Ebost 4 Mawrth 2021 / Email 4 March 2021</u>**

Annwyl Glerc

Gwelir yn atodol, os gwelwch yn dda, Newyddlen sydd wedi ei pharatoi gan y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned. Crynodeb ydi'r Newyddlen hon o weithgaredd diweddar y Pwyllgor; mae mwy o wybodaeth ar gael wrth i chi ddilyn y dolenni.

Mae anfon Newyddlenni fel hyn yn syniad newydd gan y Pwyllgor; y gobaith ydi ei fod yn ffordd hwylus o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth efo chi fel Cynghorau Tref a Chymuned. Y bwriad ydi anfon Newyddlenni pellach atoch yn dilyn cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor.

Os gwelwch yn dda wnewch chi ddod a'r Newyddlen hon i sylw aelodau eich Cyngor drwy ei chynnwys fel eitem ar Raglen eich cyfarfod Cyngor nesaf? Yn dilyn hyn, gofynnir i chi gysylltu efo Medwen Jones ar mwjcs@ynysmon.gov.uk gyda chopi o'r Rhaglen / Cofnodion yn cadarnhau fod y Newyddlen hon wedi ei thrafod, os gwelwch yn dda? Bydd adroddiad am yr ymatebion sydd wedi eu derbyn yn dod gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

Cofiwch gysylltu os bydd unrhyw ymholiad.

Diolch am eich cydweithrediad.

Cofion,

John R Jones
Cadeirydd – Pwyllgor Safonau

---

Dear Clerk

Please find enclosed a Newsletter which has been prepared by the Standards Committee for Town and Community Councils. This Newsletter is a summary of the Committee's recent activities; more information is available if you click on the links.

Sending Newsletters in this way is a new initiative by the Committee; the hope is that it will be a convenient method of communicating and sharing information with you as Town and Community Councils. The intention is to send further Newsletters following the Committee's formal meetings.

Will you please bring this Newsletter to the attention of your Council's members by including it as an item on your next Council meeting's Agenda? Following this, could you please contact Medwen Jones on mwjcs@ynysmon.gov.uk with a copy of the Agenda / Minutes confirming this Newsletter has been discussed? A report on the responses received will be presented to the Committee at its June meeting.

Please contact me should you have any queries.

Thank you for your co-operation.

Regards,

John R Jones
Chair – Standards Committee
Document: CC-022335-MY/626900

## Ymatebion gan y Cynghorau Tref a Chymuned / Town and Community Councils Responses

| | Cyngor Tref a Chymuned / Town and Community Council | Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting | Copi Rhaglen / Cofnodion / Copy Agenda / Minutes |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyngor Cymdeithas **Aberffraw** Community Council | | |
| 2 | Cyngor Tref **Amlwch** Town Council | | |
| 3 | Cyngor Tref **Biwmares / Beaumaris** Town Council | | |
| 4 | Cyngor Cymdeithas **Bodedern** Community Council | | |
| 5 | Cyngor Cymdeithas **Bodffordd** Community Council | | |
| 6 | Cyngor Cymdeithas **Bodorgan** Community Council | | |
| 7 | Cyngor Cymdeithas **Bryngwran** Community Council | 10/3/2021 | Agenda 21.03.10.doc; Cofnodion 21.03.10.doc |
| 8 | Cyngor Tref **Caergybi / Holyhead** Town Council | | |
| 9 | Cyngor Bro **Cwm Cadnant** Community Council | | |
| 10 | Cyngor Bro **Cylch y Garn** Community Council | | |
| 11 | Cyngor Cymuned **Llanbadrig** Community Council | | |
| 12 | Cyngor Cymdeithas **Llanddaniel-Fab** Community Council | | |
| 13 | Cyngor Cymdeithas **Llanddona** Community Council | | |
| 14 | Cyngor Cymdeithas **Llanddyfnan** Community Council | 16/3/2021 | Agenda 21.03.16.doc; Cofnodion 21.03.16.doc |
| 15 | Cyngor Cymdeithas **Llaneilian** Community Council | | |
| 16 | Cyngor Cymuned **Llanerchymedd** Community Council | 25/3/2021 | Rhybudd Cyfarfod - 25.03.21 ZOOM.doc; Cofnodion 25.03.21.doc |
| 17 | Cyngor Cymuned **Llaneugrad**Community Council | | |
| 18 | Cyngor Cymdeithas **Llanfachraeth** Community Council | | |
| 19 | Cyngor Cymdeithas **Llanfaelog**Community Council | | |
| 20 | Cyngor Cymdeithas **Llanfaethlu** Community Council | | |
| 21 | Cyngor Cymuned **Llanfair Mathafarn Eithaf** Community Council | | |
| 22 | Cyngor Cymdeithas **Llanfair yn Neubwll** Community Council | | |
| 23 | Cyngor Cymuned **Llanfairpwll** Community Council | | |
| 24 | Cyngor Cymdeithas **Llanfihangelesceifiog** Community Council | | |
| 25 | Cyngor Tref **Llangefni** Town Council | 12/4/2021 | RHAGLEN CYFARFOD LLAWN E; COFNODION 12.04.2021.docx |
| 26 | Cyngor Cymdeithas **Llangoed a Phenmon / Llangoed and Penmon** Community Council | | |
| 27 | Cyngor Cymdeithas **Llangristiolus** Community Council | 15/3/2021 | Agenda 21.03.15.doc; Cofnodion 21.03.15.doc |
| 28 | Cyngor Cymdeithas **Llanidan** Community Council | | |
| 29 | Cyngor Cymdeithas **Mechell** Community Council | | |
| 30 | Cyngor Cymuned **Moelfre** Community Council | | |
| 31 | Cyngor Cymuned **Penmynydd a Star / Penmynydd and Star** Community Council | | |

| | Cyngor Tref a Chymuned / Town and Community Council | Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting | Copi Rhaglen / Cofnodion / Copy Agenda / Minutes |
|---|---|---|---|
| 32 | Cyngor Cymdeithas **Pentraeth** Community Council | | |
| 33 | Cyngor Tref **Porthaethwy /** **Menai Bridge** Town Council | 15/4/2021 | Minutes Full Council ZOOM Mee |
| 34 | Cyngor Cymdeithas **Rhoscolyn** Community Council | | |
| 35 | Cyngor Cymuned **Rhosybol** Community Council | 12/4/2021 | Agenda 12 Ebrill 2021.docx Cofnodion 12 Ebrill 2021.docx |
| 36 | Cyngor **Rhosyr** Council | | |
| 37 | Cyngor Bro **Trearddur** Community Council | | |
| 38 | Cyngor Cymdeithas **Tref Alaw** Community Council | | |
| 39 | Cyngor Bro **Trewalchmai** Community Council | 10/5/2021 | Agenda Mai 2021.doc Cofnodion Mai 2021.doc |
| 40 | Cyngor Cymuned **Y Fali / Valley** Community Council | 17/03/2021 | Agenda Mawrth 21.pdf 11 Cofnodion Mawrth 21.pdf |

This page is intentionally left blank